

The logo features the word 'COMBI' in a bold, dark blue, sans-serif font. The letter 'O' is replaced by a stylized speech bubble containing two overlapping circles, one red and one orange. The background is white with several light grey speech bubble outlines scattered around the text.

# COMBI

Communication competences for migrants  
and disadvantaged background learners in bilingual work environments

A large red rectangular area containing several speech bubble outlines in various colors (blue, yellow, pink, grey).

---

**PECYN CYMORTH HYFFORDDIANT ATHRAWON**

---

[combiproject.eu](http://combiproject.eu)



Co-funded by the  
Erasmus+ Programme  
of the European Union



# COMBI

Communication competences for migrants  
and disadvantaged background learners in bilingual work environments

## PECYN CYMORTH HYFFORDDIANT ATHRAWON

[combiproject.eu](http://combiproject.eu)



Co-funded by the  
Erasmus+ Programme  
of the European Union

<b><u>CYFLWYNIAD</u></b>	<b>1</b>
SOSIOIEITHYDDIAETH Y BROSES O DDYSGU IAITH LEIAFRIFOL	3
SUT I DDEFNYDDIO'R PECYN CYMORTH HWN?	5
<b><u>A. ADNODDAU AR GYFER CASGLU A DADANSODDI ANGHENION CYFATHREBU'R GWEITHLE A'R FARCHNAD LAFUR</u></b>	<b>7</b>
<b>A.1. CASGLU GWYBODAETH AM ANGHENION CYFATHREBU'R GWEITHLE</b>	<b>8</b>
<b>A 1.2. CANLLAWIAU AR ARFERION DA – DADANSODDI ANGHENION (CYFFREDINOL)</b>	<b>11</b>
<b>A 1.3. CANLLAWIAU AR ARFERION GORAU – DADANSODDI ANGHENION (IEITHOEDD LLEIAFRIFOL)</b>	<b>12</b>
<b>A2: PECYN CYMORTH</b>	<b>14</b>
<b>A3: RHESTR DOLENNI/DEUNYDD</b>	<b>19</b>
<b><u>B. DULLIAU DYSGU AMLDDISGYBLAETHOL</u></b>	<b>20</b>
<b>B.1. CYFLWYNIAD – DULLIAU DYSGU AMLDDISGYBLAETHOL</b>	<b>21</b>
<b>B.2. DULLIAU AMLDDISGYBLAETHOL O ADDYSGU IAITH (CYFFREDINOL)</b>	<b>22</b>
<b>B 1.3. DULLIAU AMLDDISGYBLAETHOL O ADDYSGU IAITH LEIAFRIFOL</b>	<b>27</b>
<b>B2: PECYN CYMORTH</b>	<b>30</b>
<b>B.3 RHESTR DOLENNI/DEUNYDD</b>	<b>44</b>
<b><u>C. DISGRIFIAD O YMARFERION SY'N DEFNYDDIO DULLIAU AMLDDISGYBLAETHOL YM MAES GOFAL I'R HENOED</u></b>	<b>45</b>
<b>C.1. CYFLWYNIAD – DISGRIFIAD O'R YMARFERION</b>	<b>46</b>
<b>C 1.2. YMARFERION SY'N DEFNYDDIO DULLIAU AMLDDISGYBLAETHOL (CYFFREDINOL)</b>	<b>47</b>
<b>C 1.3. YMARFERION SY'N DEFNYDDIO DULLIAU AMLDDISGYBLAETHOL (IEITHOEDD LLEIAFRIFOL)</b>	<b>48</b>
<b>C2: PECYN CYMORTH</b>	<b>49</b>
<b>C3: RHESTR DOLENNI/DEUNYDD</b>	<b>57</b>
<b>D. CYNLLUNIO CYRSIAU SY'N DEFNYDDIO DULLIAU AMLDDISGYBLAETHOL</b>	<b>58</b>
<b><u>D.1. CYFLWYNIAD – CYNLLUNIO CWRS</u></b>	<b>59</b>
<b>D.1.2. CYNLLUNIO CYRSIAU (CYFFREDINOL)</b>	<b>60</b>
<b>D.1.3. CYNLLUNIO CYRSIAU (IEITHOEDD LLEIAFRIFOL)</b>	<b>61</b>



<b>D 2: PECYN CYMORTH</b>	<b>62</b>
<b>D 3: RHESTR DOLENNI/DEUNYDD</b>	<b>62</b>
<b><u>E. ADNODDAU GWERTHUSO</u></b>	<b><u>63</u></b>
<b>E.1. CYFLWYNIAD – ADNODDAU GWERTHUSO</b>	<b>64</b>
<b>E.1.2. ADNODDAU GWERTHUSO (CYFFREDINOL)</b>	<b>66</b>
<b>E2: PECYN CYMORTH:</b>	<b>67</b>
<b>E3: RHESTR DOLENNI/DEUNYDD</b>	<b>69</b>

## CYFLWYNIAD

Ni ellir cymharu'r broses o ddysgu iaith leiafrifol fel iaith ychwanegol â dysgu iaith fwyafrifol fel iaith ychwanegol o reidrwydd. Mae hyn yr un mor wir i fudwyr ag y mae i unrhyw berson arall sy'n dysgu iaith leiafrifol. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd mudwr sy'n dysgu iaith fwyafrifol yn gallu cymryd rhan yn y gymdeithas yn gyffredinol. Mae'n bosibl y bydd mudwr sy'n dysgu iaith leiafrifol, er enghraifft mewn gweithle, yn fwy tebygol o ddefnyddio'r iaith mewn amgylchiadau penodol a gyda phobl benodol. Hefyd, efallai na fydd dysgu a defnyddio iaith leiafrifol, er enghraifft yn y gweithle, yn berthnasol i holl swyddogaethau'r gweithle o reidrwydd, a gall hyn amrywio ymhellach yn dibynnu ar y gweithle yn ogystal â'r gymuned iaith Ewropeaidd dan sylw.

Felly, mae prosiect COMBI wedi datblygu Pecyn Cymorth sy'n ystyried natur wahanol gweithleoedd a chymunedau iaith ac yn cynnig dulliau addysgegol ar gyfer lefelau gwahanol, yn dibynnu ar y gwahanol anghenion a chyd-destunau. Yn ei hanfod, adnodd i gynyddu ymwybyddiaeth a hawliau ieithyddol pob siaradwr newydd yw'r prosiect, gan gynnwys siaradwyr mudol newydd ieithoedd lleiafrifol. Felly, bwriedir i'r adnoddau hyn gael eu defnyddio fel canllaw i iaith ar bob lefel, o lefel dechreuwr i lefel rhugl, ond gan bwysleisio bod gan unigolion (mudwyr yn yr achos hwn) nodau gwahanol o ran iaith – dim ond un o blith nifer yw rhuglder.

Mae gwerth siaradwr iaith dramor wedi'i gymharu'n hanesyddol â pha mor agos y daw i fod yn siaradwr brodorol neu gymwyseddau ffurfiol fel profion iaith nodedig. Serch hynny, mae sosioieithyddion ym maes astudiaethau iaith a mudo wedi cynnig safbwyntiau eraill ar y drafodaeth hon. Mae Extra et al. (2009), ymhlith eraill, wedi nodi bod polisïau integreiddio wedi methu o ran eu gofynion iaith a'u profion iaith gan nad ydynt wedi bodloni gwir ofynion siaradwyr nac wedi arwain at well integreiddio. Hefyd, mae ymchwil gan Jauregi (2017) yng Ngwlad y Basg yn dangos bod hyd yn oed wybodaeth oddefol am iaith yn cael effaith gadarnhaol ar siaradwyr ac y gellir ei hystyried yn rhan o repertoire ieithoedd unigolyn. Er gwaethaf ymchwil gynyddol sy'n pwysleisio hylifedd y broses o ddysgu iaith, sy'n broses barhaus, at ddibenion y pecyn cymorth hwn, rydym wedi rhannu anghenion siaradwyr newydd i dri phrif faes, fel y gwelir ar y dudalen ganlynol. Felly, mae'r pecyn cymorth yn pwysleisio y dylid gwerthfawrogi ac annog amrywiaeth eang o gymwyseddau iaith, ac felly, y gellir addysgu ac ardystio pob un o'r tri maes cymwyseddau iaith yn y fframwaith, h.y. nid yw aelod ar lefel siaradwr 1 o reidrwydd yn rhywun nad yw wedi llwyddo i gyrraedd lefel siaradwr 3.

**Yn fyr, gall hyd yn oed mudwr sy'n byw mew gwlad am ychydig fisoedd wneud cyfraniad pwysig at amgylchedd y gweithle. Gall hyn fod drwy gyfarchion, geiriau allweddol ac agwedd ragweithiol tuag at yr iaith leiafrifol, y gellir addysgu pob un ohonynt mewn un gweithdy.**

Lefel y siaradwr	Proffil iaith	Sefyllfa'r gweithle
<p>1. Ymwybyddiaeth, siaradwr sylfaenol (goddefol/gweithredol)</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>– Yn ymwybodol o bresenoldeb a phwysigrwydd yr iaith leiafrifol.</li> <li>– Yn dangos empathi tuag at ddefnyddwyr yr iaith leiafrifol ac yn ceisio casglu gwybodaeth.</li> <li>– Yn gyfarwydd â chyfarchion, geiriau allweddol, sillafiadau enwau, lleoedd ...</li> <li>– Yn ceisio meithrin dealltwriaeth reddfol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>– Prif iaith y gweithle yw'r iaith fwyafrifol gyda chleientiaid yn defnyddio'r iaith leiafrifol/y ddwy iaith.</li> <li>– Mae trefniadaeth y gweithle (dogfennau, cyfarfodydd staff) yn yr iaith fwyafrifol neu'n ddwyieithog.</li> </ul>
<p>2. Siaradwr swyddogaethol/ siaradwr llafar</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>– Yn gallu cyflawni swyddogaethau penodol yn yr iaith leiafrifol (e.e. egluro i'r cleient/claf beth mae'n bwriadu ei wneud) ond nid pob swyddogaeth (e.e. rhoi adroddiadau ar gleientiaid/cleifion mewn cyfarfodydd staff dyddiol).</li> <li>– Yn deall yr iaith leiafrifol yn rhannol neu'n gyfan gwbl ond nid yw'n ei siarad.</li> <li>– Yn gwbl gymwys ar lafar ond nid yw'n ei darllen na'i hysgrifennu.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>– Prif iaith y gweithle yw'r iaith fwyafrifol gyda chleientiaid yn defnyddio'r iaith leiafrifol/ddwy iaith.</li> <li>– Mae trefniadaeth y gweithle (dogfennau, cyfarfodydd staff) yn yr iaith leiafrifol neu'n ddwyieithog.</li> <li>– Prif iaith y gweithle yw'r iaith leiafrifol, ond mae'r ddogfennaeth a'r deunydd ysgrifenedig yn yr iaith fwyafrifol.</li> </ul>
<p>3. Siaradwr llawn, cwbl gymwys</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>– Yn cyflawni'r holl gymwyseddau iaith (siarad, deall, darllen, ysgrifennu) ar lefel sy'n cyfateb i (+-) B1-B2 CEFR.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>– Prif iaith y gweithle yw'r iaith leiafrifol (gyda rhai cleientiaid yn defnyddio'r iaith fwyafrifol).</li> <li>– Mae trefniadaeth y gweithle (dogfennaeth, cyfarfodydd staff) mewn iaith leiafrifol.</li> <li>– Rhaid llwyddo mewn arholiad iaith yn yr iaith leiafrifol (B1-B2 CEFR) er mwyn cael y swydd.</li> </ul>

## SOSIOIEITHYDDIAETH Y BROSES O DDYSGU IAITH LEIAFRIFOL

O gymharu ag ieithoedd mwyafrifol, nid oes llawer o fri yn gysylltiedig ag ieithoedd lleiafrifol. Mae hanes cymdeithasol-ddiwylliannol a gwleidyddol yr ieithoedd hyn yn golygu y gall fod yn well gan siaradwyr ieithoedd lleiafrifol ddefnyddio'r iaith fwyafrifol mewn bywyd cyhoeddus a phroffesiynol hyd yn oed os oes ganddynt ddealltwriaeth o'r iaith leiafrifol. Er enghraifft, os yw pawb ond un mewn grŵp; yn siarad yr iaith leiafrifol, bydd y grŵp fel arfer yn siarad yn yr iaith fwyafrifol. Gall hyn ddod yn arfer a all fod yn anodd ei wrthdroi. Gall hyn hefyd ddigwydd mewn sefyllfaoedd gwaith. Er enghraifft, mewn cartref gofal i'r henoed, os mai'r iaith fwyafrifol yw'r iaith *de facto* ar gyfer dogfennaeth a thasgau proffesiynol, dim ond wrth gyfathrebu (ar lafar) â chleientiaid (neu rai cleientiaid) sy'n byw yn y cartref y caiff iaith gyffredin y gweithwyr ei defnyddio. Serch hynny, mewn rhai sefyllfaoedd mae'n bosibl y bydd staff, cleientiaid a phersonél gofal yn cyfathrebu yn gyfan gwbl yn yr iaith leiafrifol, tra bo'r ddogfennaeth yn cael ei chwblhau yn gyfan gwbl yn yr iaith fwyafrifol.

Gall diffyg statws fod yn nodwedd arall sy'n pennu sefyllfa ieithoedd lleiafrifol. Hyd yn oed os oes ganddynt ryw faint o wybodaeth am yr iaith leiafrifol, efallai na fydd rhai gweithwyr yn siarad yr iaith leiafrifol yn weithredol. I siaradwyr newydd, mae hyn yn golygu nad ydynt yn cael eu hamgylchynu'n awtomatig gan yr iaith y maent yn ei dysgu, gan olygu bod yn rhaid iddynt fabwysiadu agwedd ragweithiol er mwyn siarad yr iaith. Mae hyd yn oed mwy o bwysau ar siaradwyr mudol newydd i wneud hyn gan fod hyd yn oed llai o ddisgwyliadau ohonynt fel siaradwyr iaith leiafrifol.

Mae'r pecyn cymorth hwn hefyd yn ymwneud â'r gwerth a roddir i fod yn "siaradwr swyddogaethol". Nid siaradwr llawn diffygiol yw siaradwr swyddogaethol. Mae meddu ar wybodaeth sylfaenol am yr iaith leiafrifol neu sgiliau cyfathrebu heb fod yn ramadegol gywir yn golygu'n aml nad yw nifer o bobl yn ystyried eu hunain yn siaradwyr mewn ffordd gadarnhaol ac nad ydynt yn mentro defnyddio'r hyn y maent yn ei wybod. Mae hyn yn wahanol i iaith fwyafrifol gan nad oes gan bobl ddewis arall ond defnyddio eu sgiliau iaith elfennol er mwyn i bobl eraill eu deall. Ein nod drwy'r pecyn cymorth hwn yw helpu siaradwr iaith leiafrifol i roi gwerth i'w ddefnydd o'r iaith, hyd yn oed os yw hyn ond yn cynnwys ychydig eiriau. Y nod yw datblygu agwedd gadarnhaol ac agored at ddysgu iaith, a all fynd y tu hwnt i'r ychydig eiriau cyntaf.

Yn olaf, mae'n rhaid chwilio'n fwy am gyfleoedd i ddysgu iaith leiafrifol nag yn achos iaith fwyafrifol. Bydd y pecyn cymorth hwn hefyd yn datblygu strategaethau ar sut i greu lleoedd cyffredin ar gyfer siarad a defnyddio'r iaith. Byddwn yn cyflwyno ac yn gwneud ymarferion sy'n dangos sut i ddefnyddio'r ddwy iaith ar gyfer swyddogaethau gwahanol, yn unol â gofynion y gweithle. Ein nod yw darparu deunydd (h.y. adnoddau) ar gyfer camau gwahanol o'r broses o ddefnyddio iaith, gan ystyried defnyddiwr terfynol yr iaith bob amser (y person oedrannus neu'r person dibynnol y mae'r defnydd a wneir o'i iaith, neu'r gydnabyddiaeth a roddir iddi, yn dylanwadu ar ansawdd ei fywyd).



### **Grwpiau targed**

1. Mae'r deunydd wedi'i lunio'n benodol ar gyfer athrawon hyfforddiant galwedigaethol ac athrawon iaith. Ceir deunydd penodol ar gyfer pob grŵp yn unol â'i anghenion penodol.
2. Ar y naill law, cafodd y deunydd ei greu i'w ddefnyddio gyda dysgwyr mudol, ond ar y llaw arall, gellir ei ddefnyddio gyda dysgwyr yn gyffredinol, yn bennaf gyda grwpiau â diddordebau penodol, e.e. gweithwyr gofal i'r henoed, menywod mudol.
3. Gellir defnyddio'r deunydd mewn amrywiaeth o leoedd, fel y gweithle, ysgolion iaith neu ysgolion hyfforddiant galwedigaethol. Ym mhob achos, mae'n bosibl y bydd gofynion arbennig ar gyfer deunyddiau (e.e. efallai y bydd angen i ysgolion iaith gael deunydd ar gyfer gofal i'r henoed, ac efallai y bydd angen bwrdd gwyn ar gartrefi nyrsio ...).
4. Yn gyffredinol, y gofyniad ar gyfer cymhwyso'r dull/ymarferion addysgu yw bod y dysgwr eisoes yn meddu ar wybodaeth am yr iaith fwyafrifol a bod yr iaith fwyafrifol yn cael ei defnyddio/siarad/deall yn y gweithle.

### **Termau a ddefnyddir:**

Iaith gyntaf (I1): yr iaith fwyafrifol ac iaith gyntaf y siaradwr (e.e. Lladin-Americanwyr yn rhan Sbaenaidd Gwlad y Basg).

Iaith gyswllt 1 (P1): yr iaith fwyafrifol ond nid iaith gyntaf y siaradwr (e.e. Morociaid yn siarad Sbaeneg yn rhan Sbaenaidd Gwlad y Basg).

Ail/Trydedd iaith (L2/L3): yr iaith leiafrifol y mae'r dysgwr yn anelu at ei chaffael (e.e. Basgeg yn achos Lladin-Americanwyr a Morociaid yn rhan Sbaenaidd Gwlad y Basg).

\*Noder: Rydym yn cydnabod cyfyngiadau categorïau iaith i ddisgrifio'r broses hylifol o ddysgu iaith. Caiff hyn ei herio'n eang mewn trafodaethau ôl-strwythuriaeth ar ddysgu iaith. Serch hynny, at ddiben eglurder a chywirdeb, rydym wedi mabwysiadu'r categorïau uchod, a gydnabyddir yn eang.

---

## SUT I DDEFNYDDIO'R PECYN CYMORTH HWN?

Dilynwch y "canllaw i ddefnyddwyr" er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r llawlyfr hwn i ddiwallu eich anghenion personol.

**Mae pob pennod yn cynnwys tair rhan:**

1. Canllawiau
2. Pecyn cymorth
3. Rhestr dolenni

**Er enghraifft:**

Mae Pennod A wedi'i rhannu'n dair rhan

**Rhan A: Canllawiau**

A. 1 Cyflwyniad

A. 2 Canllawiau cyffredinol

A. 3 Canllawiau penodol ar gyfer sefyllfaoedd ieithoedd lleiafrifol.

**Rhan B: Pecyn cymorth**

Mae hwn yn cynnwys adnoddau ymarferol o gymunedau iaith gwahanol ar gyfer sefyllfaoedd gwahanol: holiaduron, ffurflenni, cwestiynau gwerthuso safonol, enghreifftiau ar gyfer cynllunio, ac ati.

**Rhan C: Rhestr dolenni:**

Mae'r rhestr hon yn cynnwys dolenni i lenyddiaeth arall am y pwnc, gwefannau, dogfennau PDF mewn ieithoedd gwahanol, yn ogystal â thudalennau neu lyfrynau gwreiddiol

## Enghraifft ymarferol:

Rydych yn athro iaith sy'n cynllunio cwrs iaith proffesiynol am y tro cyntaf, ac mae angen i chi gynnal dadansoddiad o anghenion:

⇒ darllenwch y bennod gyntaf yn ei chyfanrwydd, sef rhannau A1-A3, lle cewch wybodaeth a deunydd.

Os ydych wedi arfer â chysgodi swyddi neu asesu anghenion ond nad ydych byth wedi gweithio gydag ieithoedd lleiafrifol nac mewn sefyllfa ddwyieithog:

⇒ darllenwch y rhan fwyaf o Bennod A, rhan A1.3, ac edrychwch am ddeunydd penodol yn A2.

Os ydych wedi arfer â dadansoddi anghenion yn y gweithle a sefyllfaoedd ieithoedd lleiafrifol, ond mae gennych ddi-ddordeb mewn deunydd a llenyddiaeth gefndir newydd:

⇒ darllenwch y cyflwyniad yn y bennod gyntaf, rhan A1, ac ewch yn syth i'r pecyn cymorth a'r rhestr dolenni yn A2 ac A3.

## A. ADNODDAU AR GYFER CASGLU A DADANSODDI ANGHENION CYFATHREBU'R GWEITHLE A'R FARCHNAD LAFUR

Mae cysgodi swyddi yn ffordd bwysig a defnyddiol i fyfyrwyr gasglu gwybodaeth am anghenion cyfathrebu'r gweithle. Mae'n galluogi myfyrwyr i archwilio gyrfaeodded penodol ac i gael darlun realistig o'r tasgau a gyflawnir ar gyfer y swydd honno. Mae hyn yn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg am eu gyrfa.

Yng nghyd-destun prosiect COMBI, mae cysgodi swyddi yn galluogi myfyrwyr, ac yn bennaf athrawon, i wybod beth sydd ei angen yn y gweithle, rhagweld sefyllfaoedd go iawn a chynllunio dulliau a strategaethau i ddelio â nhw.

Mae cysgodi swyddi yn helpu myfyrwyr ac athrawon i arsylwi ar arferion ieithyddol pendant gweithwyr, nodi pa rai o'r arferion hynny a gyflawnir yn yr iaith fwyafrifol a pha rai a gyflawnir yn yr iaith lleiafrifol. Mae'n bwysig ystyried, er enghraifft, a yw'r iaith fwyafrifol neu lleiafrifol yn cael ei defnyddio ar gyfer yr un arferion ieithyddol ar adegau gwahanol o'r dydd (e.e. oriau brig).

Mae'r rhan gyntaf o'r bennod hon (adran A1) yn cynnwys cyflwyniad byr am y gwahaniaeth rhwng cwrs iaith traddodiadol a chwrs iaith sy'n rhoi pwyslais ar dasgau proffesiynol y mae'n ofynnol i ddysgwyr eu cyflawni.

Mae'r ddwy bennod ganlynol yn cynnwys canllawiau a chyngor ynghylch y broses o asesu anghenion a chysgodi swyddi. Mae'r naill yn ystyried sut i gymhwyso'r technegau hyn yn gyffredinol a'r llall yn ymwneud â sut i'w cymhwyso at sefyllfaoedd gweithle dwyieithog neu ieithoedd lleiafrifol.

Yn adran A2, gallwch glicio ar yr adnoddau sydd eu hangen arnoch i gymhwyso'r technegau hyn, neu eu lawrlwytho. Yn A3, cewch ddolenni pwysig i lenyddiaeth am y drafodaeth ar asesu anghenion mewn rhwydweithiau Ewropeaidd.

### Nod y bennod hon:

Mae'r bennod hon wedi'i hanelu at athrawon iaith neu hyfforddwyr galwedigaethol ac mae'n cynnwys canllawiau ar sut i asesu anghenion drwy gynnal cyfweiliadau neu drwy arsylwi neu gysgodi swyddi yn uniongyrchol yn y gweithle.

Rhoddir sylw arbennig hefyd i sefyllfaoedd ieithoedd lleiafrifol penodol.

## A.1. CASGLU GWYBODAETH AM ANGHENION CYFATHREBU'R GWEITHLE

Wrth baratoi dadansoddiad o anghenion ar gyfer gweithle neu grŵp o ddysgwyr penodol, mae yna ddau brif ddangosydd sy'n dweud wrthym sut i ddadansoddi anghenion cyfathrebu:

- **Bodolaeth a chynnwys polisi iaith, neu nod neu genhadaeth (ieithyddol) sefydliad neu gwmni**
- **Anghenion cyfathrebu penodol y mae'n rhaid i'r myfyrwyr eu diwallu yn eu gweithle a'r ffactorau sosioieithyddol sy'n dylanwadu ar hyn (e.e. iaith staff, iaith gwaith papur, ac ati)**

Gellir cael gwybodaeth am bolisi iaith gan swyddogion neu reolwyr y sefydliad y mae'r gweithwyr yn gysylltiedig ag ef. Gorau oll po fwyaf o fanylion a geir yn y wybodaeth hon, er mwyn manteisio i'r eithaf ar unrhyw ddogfennaeth bresennol.

Bydd gwybod am bolisi ieithyddol sefydliad, rhanbarth neu gwmni yn helpu i gyflawni nodau cwrs neu raglen iaith, e.e. a fydd angen siaradwyr cymwys neu ai meithrin ymwybyddiaeth o iaith yw prif flaenoriaeth y gweithwyr? A oes gan y sefydliad neu'r rhanbarth (bwrdeistref, cwmni, ac ati) nodau penodol o ran iaith, a beth yw'r amserlen ar gyfer eu cyflawni? Neu a yw'n ddull *laissez faire*?

Mae'r dangosydd arall yn seiliedig ar anghenion cyfathrebu penodol sydd eu hangen ym mhob gweithle a gellir ei gasglu drwy dechnegau gwahanol. Rhaid i'r technegau gael eu deall o fewn fframwaith damcaniaethol sy'n trafod y gwahaniaethau rhwng cyrsiau iaith traddodiadol a chysiau iaith sy'n seiliedig ar dasgau ar gyfer anghenion y gweithle.

Mae un o'r trafodaethau gwyddonol mwyaf datblygedig am ddadansoddi anghenion cyfathrebu'r gweithle i'w gweld yng ngwaith Marjatta Huhta et al., "Needs Analyses for Language Course Design" (Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 2013).

Yn ôl canllawiau CEFR (Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd: Dysgu, Addysgu, Asesu) Cyngor Ewrop, y gwahaniaeth rhwng cwrs iaith sy'n canolbwyntio ar anghenion y gweithle a chwrs iaith traddodiadol yw'r flaenoriaeth a'r gofyniad i gyflawni tasgau proffesiynol fel rhan o'r dysgu. Gallai hyn fod hyd yn oed yn fwy perthnasol i ieithoedd lleiafrifol, lle nad oes rhaid i bob swyddogaeth broffesiynol o reidrwydd gael ei chyflawni yn yr iaith hon (e.e. cyfathrebu ar lafar yn yr iaith lleiafrifol a gwaith papur yn yr iaith fwyafrifol).

Felly, mae'r ffordd y caiff y wybodaeth hon ei chasglu yn elfen bwysig o'r drafodaeth. Y prif ffyrdd o wneud hyn yw drwy arsylwi (cysgodi swyddi), cynnal cyfweiliadau personol (wyneb yn wyneb) a chyfweiliadau ysgrifenedig â'r gweithwyr, uwch-aelodau o'r staff a rhanddeiliaid perthnasol eraill, yn ogystal â chynnal hunanasesiad. Mae manteision ac anfanteision i bob un o'r ffyrdd hyn, yn dibynnu ar anghenion y dysgwyr, yr athrawon neu'r cyflogwyr.



Hyd yn oed os dilynir canllawiau CEFR yn agos, cyflawni tasgau ddylai fod nod dysgu iaith yn y gweithle bob amser. O ran y gweithle, y prif nodweddion sydd o ddiddordeb i ni yw trafodaethau proffesiynol. Mae Hutha et al. (2013) yn nodi:

“By this we mean a communicative task that is integral to the professional workplace context, but which is primarily fulfilled through the application of language and discourse skills (as opposed to, for example, workplace tasks that require specific technical expertise).”

Mae'n bwysig edrych am arferion ieithyddol pendant, e.e. **rhoi cysur a sicrwydd** i gleifion, **egluro terminoleg broffesiynol** i aelodau'r teulu, **rhoi gwybodaeth fanwl** i weithwyr proffesiynol eraill.

Yn ogystal â bod yn ddefnyddiol wrth greu cwricwlwm y cwrs, gall asesu anghenion, yn enwedig cysgodi swyddi, hefyd chwarae rôl bwysig wrth ddod ag athrawon iaith a'r gweithle ynghyd.

Cyn cysgodi swyddi neu gynnal cyfweiliadau, mae'n hollbwysig gwybod a oes gan y gweithle y wybodaeth/dogfennaeth ganlynol, neu a yw'n eu defnyddio:

- Disgrifiad swydd: swyddogaethau, tasgau a dyletswyddau.
- Cyfarwyddiadau o ran gwaith a phrotocolau.
- Map prosesau sy'n diffinio llif gweithgareddau a'r rhyngberthnasau.

Yn hyn o beth, byddai'n ddefnyddiol dysgu am amgylchedd y gweithle cyn defnyddio technegau cysgodi swyddi neu gyfweiliadau.



## A 1.2. CANLLAWIAU AR ARFERION DA – DADANSODDI ANGHENION (CYFFREDINOL)

Bydd yr adran hon yn trafod pwyntiau allweddol yn ymwneud â dadansoddi anghenion ac asesu'r gweithle mewn perthynas â gofal i'r henoed:

- Rhaid trafod â staff a rheolwyr a chael eu cytundeb ymlaen llaw cyn cysgodi swyddi (amcanion a hyder).
- Mae'n arferol i rywun sy'n cysgodi swydd deimlo'n anghyfforddus. Felly, gall fod yn ddefnyddiol gwneud y canlynol:
  - cyfarch pobl eraill ac egluro'r hyn rydych yn ei wneud
  - "bod yn anweladwy" drwy wisgo dillad gwaith/ymddwyn yn ddisylw
  - cysgodi swyddi pobl sydd â'r un rôl nad oes angen iddynt ddilyn cwrs iaith.
- Os oes gwybodaeth sylfaenol am broffil y swydd (disgrifiadau swydd, y rhyngwyd, a deunydd hyfforddi galwedigaethol), gellir cymharu swyddogaethau cyfathrebu sylfaenol â realiti'r gweithle.
- Dylid sicrhau mai arferion gorau ym maes cyfathrebu yw'r norm bob amser, hyd yn oed os nad yw'r gweithwyr yn cyfathrebu fel y disgwylir iddynt yn y gweithle (e.e. yn dewis peidio ag egluro i gleient yr hyn y mae'n bwriadu ei wneud am ei fod yn cymryd gormod o amser). O ran cyrsiau iaith, mae angen addysgu a dysgu'r arferion gorau.
- Mewn cyfweiliadau, mae'n bwysig gofyn cwestiynau penodol iawn er mwyn deall y strwythurau ieithyddol y mae angen eu haddysgu (e.e. nid yw "Bydda i'n gofyn a ydyn nhw am gael bara" yn ddigon. Bydd yn rhaid i chi wybod brawddegau a'r cyd-destun, e.e. ("Bara? Oes gennych chi fara? Hoffai rhywun gael bara? Hoffech chi gael rhagor o fara?")
- O ran iaith ysgrifenedig, mae cyfweiliadau yn ystyried lefel llythrennedd yr unigolyn (neu ei llythrennedd yn yr wyddor Lladin) neu ei allu i fynegi ei hun yn ysgrifenedig yn ei ail iaith (L2).
- Mewn cyfweiliadau wyneb yn wyneb, mae'n ddefnyddiol gweithio gyda dyfais recordio a gwneud trawsgrifiad llythrennol.
- Mae'n ddefnyddiol cyfweld â nifer o weithwyr sy'n gwneud yr un swydd neu gysgodi gweithwyr gwahanol yn gwneud yr un dasg er mwyn cael darlun cyffredinol o'r anghenion cyfathrebu.
- Gweler y Pecyn Cymorth i gael rhagor o wybodaeth am hunanasesu.



### A 1.3. CANLLAWIAU AR ARFERION GORAU – DADANSODDI ANGHENION (IEITHOEDD LLEIAFRIFOL)

Mae'r broses o asesu anghenion yn achos iaith fwyafrifol neu sefyllfa unieithog yn wahanol i sefyllfa ddwyieithog. Mewn sefyllfaoedd ieithoedd lleiafrifol, rhaid ystyried ffactorau sosioieithyddol. Gall y ffactorau hyn fod yn rhai strwythurol neu anweithredol.

- Rhaid i bolisiâu iaith gael eu cynnwys a'u hystyried wrth asesu anghenion. Gall hyn gynnwys polisiâu iaith gwirioneddol yn ogystal â'r gofynion a ragwelir yn y dyfodol o ran cymwyseddau iaith.
- Mae angen gwybodaeth am y ffordd y defnyddir yr iaith leiafrifol yn y gweithle: sgwrsio â chleientiaid yn unig, cyfathrebu rhwng cleientiaid A'r staff, cyfarfodydd, adroddiadau, ac ati.
- Mae'n fwy defnyddiol cysgodi/arsylwi ar sefyllfaoedd ieithoedd lleiafrifol na chynnal cyfweiliadau. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth o'r holl ffactorau sy'n dylanwadu ar y sefyllfa gyfathrebu (tirwedd ieithyddol, iaith y cleientiaid, iaith y staff, iaith ysgrifenedig/lafar ...).
- Rhaid i'r nodiadau a wneir wrth gysgodi swyddi gael eu dogfennu ar ffurflenni/templedi, e.e. mae tri aelod o'r staff yn siarad yn yr iaith fwyafrifol, mae dau ohonynt yn siaradwyr brodorol iaith leiafrifol, mae gan y trydydd wybodaeth dda; neu mae monitor gweithgarwch grŵp yn gwneud ei waith yn yr iaith fwyafrifol, mae'r grŵp yn gymysg o ran ieithoedd; mae gweithiwr yn ceisio siarad ag aelodau o deulu cleient yn yr iaith leiafrifol ond maent yn newid yn syth i'r iaith fwyafrifol (er eu bod yn siarad ymysg ei gilydd yn yr iaith leiafrifol).
- Nid yw sefyllfaoedd ieithoedd lleiafrifol-mwyafrifol byth yn niwtral. Mae yna bob amser ffactor 'gwleidyddol gywir' (gall hyn gynnwys defnyddio'r iaith fwyafrifol yn ogystal â defnyddio'r iaith leiafrifol mewn sefyllfaoedd gwahanol). P'un a ddefnyddir dulliau cysgodi swyddi neu gyfweiliadau, mae'n bwysig cael darlun o'r sefyllfa wirioneddol yn hytrach na'r hyn y mae pobl yn credu bod disgwyl iddynt ei WNEUD neu ei ddweud.
- Mae deall agwedd yr amgylchedd yn bwysig iawn mewn sefyllfaoedd ieithoedd lleiafrifol: a yw siaradwyr brodorol neu siaradwyr llawn eraill (aelodau o staff neu gydweithwyr) yn annog y defnydd o'r iaith leiafrifol? A ydynt yn amyneddgar? A ydynt yn defnyddio'r iaith eu hunain? Beth yw arfer y gweithle o ran y "gair gyntaf"?
- Mae'n ddiddorol nodi amseroedd tawelach mewn sefydliadau (megis cartref gofal i'r henoed, canolfannau gofal dydd, ac ati) lle y byddai'n haws siarad â chleientiaid neu gydweithwyr yn yr iaith leiafrifol a phan fo'r gwaith yn gofyn am gyfathrebu hylifol (a wneir fel o'r blaen yn yr iaith fwyafrifol).
- Mae angen i ni ystyried y ffaith bod defnyddio'r iaith leiafrifol hefyd yn golygu bod angen newid ieithyddol – mae hyn yn aml yn fwy anodd na'r broses o ddysgu'r iaith ei hun. Rhaid i'r amodau ar gyfer y newid ieithyddol hwn (gyda phwy, pryd, ym mha swyddogaethau, ac ati) hefyd fod yn un o'r amcanion wrth asesu anghenion.



## A2: PECYN CYMORTH

Nod y templedi hyn yw casglu mathau gwahanol o wybodaeth y bydd ei hangen arnoch er mwyn trefnu eich cwrs:

1. **Holiadur Cartref Gofal:** templed are gyfer casglu gwybodaeth ar gyfer cysgodi swydd.
2. **Holiadur Cartref Gofal (iaith fwyafrifol):** templed are gyfer casglu gwybodaeth ar gyfer cysgodi swydd yn yr iaith fwyafrifol.
3. **Templed cysgodi swydd:** templed ar gyfer casglu gwybodaeth am sgiliau cyffredinol gweithwyr yn ogystal â'u sgiliau iaith.
4. **Enghraifft o gysgodi swydd mewn Canolfan Ddydd:** enghraifft o arsylwad.

**1. Holiadur Cartref Gofal (Iaith fwyafrifol)**  
**(Siaradwr iaith leiafrifol – Siaradwr Brodorol/Llawn)**

Enw: .....

Rôl: ..... Dyddiad: .....

**1. Beth yw eich swyddogaethau/arferion dyddiol fel gofalwr domestig?**

.....  
.....

**2. Ym mha sefyllfaoedd rydych yn cyfathrebu â'r henoed/eich cleient?**

.....  
.....

**3. Pa sgysiau nodweddiadol rydych yn eu cael yn y sefyllfaoedd hyn?**

.....  
.....

**4. Pa fath o sgysiau rydych yn eu cael â'ch cyflogwr a'r teulu?**

.....  
.....

**5. Beth sydd angen i chi ei wybod er mwyn cyfathrebu â'ch cleient yn yr iaith leiafrifol? A ydych yn defnyddio popeth a wyddoch? Os na, pam?**

.....  
.....

**2. Holiadur Cartref Gofal (Iaith fwyafrifol)**  
**(Siaradwr iaith leiafrifol – Siaradwr Brodorol/Llawn)**

Enw: .....

Rôl: ..... Dyddiad: .....

**6. Beth yw eich swyddogaethau/arferion dyddiol fel gofalwr domestig?**

.....  
.....

**7. Ym mha sefyllfaoedd rydych yn cyfathrebu â'r henoed/eich cleient?**

.....  
.....

**8. Pa sgysiau nodweddiadol rydych yn eu cael yn y sefyllfaoedd hyn?**

.....  
.....

**9. Pa fath o sgysiau rydych yn eu cael â'ch cyflogwr a'r teulu?**

.....  
.....  
.....

**10. Beth sydd ei angen arnoch i chi gyfathrebu â'ch cleient yn yr iaith leiafrifol? A ydych yn defnyddio popeth a wyddoch? Os na, pam?**

.....  
.....

### 3. Tabled cysgodi swydd: templed arsylwi

<b>Dyddiad:</b>	<b>Lleoliad:</b>	
<b>Amser:</b>	<b>Hyd:</b>	
Amgylchiadau'r cyfathrebu:		
Cyfranogwyr (enw'r gweithiwr, swyddogaeth):		
Cyfranogwyr (preswylwyr, sefyllfa, iaith gyntaf (L1)/iaith gyswllt (P1)/ail iaith (L2)):		
<b>Gweithredoedd</b>		
gweithred:		Nodiadau:
gweithred:		Nodiadau:
gweithred:		Nodiadau:
gweithred:		Nodiadau:
5. gweithred:		Nodiadau:

#### 4. Enghraifft o gysgodi swydd mewn Canolfan Ddydd

<b>Dyddiad: 12 Ebrill 2019</b>	<b>Lleoliad:</b>	Canolfan Ddydd
<b>Amser: 2pm</b>	<b>Hyd:</b>	30 Munud
<i>Amgylchiadau'r cyfathrebu:</i>		
( <i>enghraifft: gweini brecwast</i> )		
<i>Cyfranogwyr (enw'r gweithiwr, swyddogaeth):</i>		
( <i>enghraifft: Fatima, gofalwr; Rose, pennaeth y llawr</i> )		
<i>Cyfranogwyr (preswylwyr, sefyllfa, iaith gyntaf (L1)/iaith gyswllt (P1)/ail iaith (L2):</i>		
( <i>enghraifft: 10 preswlydd Llawr 2, mae Fatima a Rose yn gweini brecwast yn yr ystafelloedd, mae Fatima a Rose yn siarad â'i gilydd yn yr iaith gyswllt (P1), mae Rose yn ddwyieithog, Arabeg yw iaith gyntaf (L1) Fatima, mae'n siarad yr iaith gyswllt (P1) yn dda ac yn dweud rhai geiriau yn ei hail iaith (L2).</i> )		
<b>Camau gweithredu</b>		
<i>1. gweithred: (enghraifft: Cnocio ar y drws, mynd i mewn i'r ystafell)</i>		<i>Nodiadau:</i>
<i>F: Egun on – Buenos dias R: (yr un peth)</i>		<i>Mae Fatima yn gwybod pa gleientiaid sy'n siarad YR iaith leiafrifol ac yn eu cyfarch yn unol â hynny</i>
<i>1. gweithred: (enghraifft: gweini'r bara)</i>		<i>Nodiadau:</i>
<i>F: Quieres pan? / ogia? Cuanto? R: Fatima, Max dice que le duele la boca</i>		<i>F: Mae'n gwybod y gair am fara ("ogia") ond nid yw'n gallu gofyn faint. Nid yw'n gallu "Hoffech chi ... ?" Mae'n deall atebion: rhifau hyd at 3 ac "ez dut nahi / Dydw i ddim eisiau"</i>
<i>1. gweithred: (enghraifft: gweini coffi/te)</i>		<i>Nodiadau:</i>

### A3: RHESTR DOLENNI/DEUNYDD

Asesu sgiliau iaith yn y gweithle (addysgu Almaeneg fel ail iaith)

[http://www.netzwerk-ig.de/fileadmin/Redaktion/Downloads/IQ\\_Publikationen/Thema\\_Sprachbildung/Br oschuere\\_Sprachbedarfsermittlung\\_2012.pdf](http://www.netzwerk-ig.de/fileadmin/Redaktion/Downloads/IQ_Publikationen/Thema_Sprachbildung/Br oschuere_Sprachbedarfsermittlung_2012.pdf)

Archwilio Sgiliau: adnodd i gyflogwyr a rheolwyr staff gofal a chymorth i'w helpu i fynd i'r afael â sgiliau cyfathrebu a rhif yn y gweithle

<https://www.scie.org.uk/workforce/careskillsbase/>

Cwestiynau ar gyfer arolygon dadansoddi anghenion yn y gweithle

[https://www.deutsch-am-arbeitsplatz.de/fileadmin/user\\_upload/PDF/needs-analysis-qs.pdf](https://www.deutsch-am-arbeitsplatz.de/fileadmin/user_upload/PDF/needs-analysis-qs.pdf)

Gridiau hunanasesu sy'n seiliedig ar CEFR mewn 34 o ieithoedd Ewropeaidd

<https://www.coe.int/en/web/portfolio/self-assessment-grid>

The Learning Workplace – a Guide for Teachers, a ddatblygwyd fel rhan o brosiect ArbetSam, sy'n cynnwys templedi ar gyfer trafodaethau a chynllun dysgu unigol

[http://www.aldrecentrum.se/sites/default/files/Global/TDAR/Spanish/A%20guide%20for%20teachers\\_150204.pdf](http://www.aldrecentrum.se/sites/default/files/Global/TDAR/Spanish/A%20guide%20for%20teachers_150204.pdf)

**DIALANG**: system ddiagnostig ar-lein a gynlluniwyd i asesu rhuglder unigolyn mewn 14 o ieithoedd Ewropeaidd

Van Avermaet, Piet / Gysen, Sara (2006): "Language learning, teaching and assessment and the integration of adult immigrants. The importance of needs analysis." Cyngor Ewrop. Strasburg.



## B. DULLIAU DYSGU AMLDDISGYBLAETHOL

Mae rhan gyntaf y bennod hon yn cyflwyno'r syniad cyffredinol o ddulliau amlddisgyblaethol o ddysgu iaith a'r hyn sy'n gwneud ein dull methodolegol ni yn wahanol i ffyrdd traddodiadol o ddysgu, yn enwedig i fudwyr, sy'n ddysgwyr ail iaith (L2) ond sydd hefyd yn ddysgwyr trydedd a phedwaredd iaith (L3/L4), ac ati. Mae yna rai agweddau pwysig y dylai athrawon hyfforddiant galwedigaethol ac athrawon iaith eu hystyried. Nid oes rhaid i athrawon hyfforddiant galwedigaethol fod yn athrawon iaith, ond rhaid iddynt ddeall prosesau dysgu iaith, er enghraifft:

- Deall y broses o ddysgu iaith a defnyddio iaith syml.
- Defnyddio deunydd, efelychiadau a lleoedd go iawn.
- Ystyried amrywiaeth ddiwylliannol a chrefyddol a rhoi gwybodaeth sylfaenol i athrawon.
- Gweithio ar gyfathrebu fel rhinwedd broffesiynol (er enghraifft yn Ffriseg mae'n bwysig dweud 'jo' ("usted") wrth bobl oedrannus yn lle 'do' ("tú") er mwyn dangos parch).
- Defnyddio drama ac ymarferion ymarferol.
- Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr iaith leiafrifol. Mae'n bwysig codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd defnyddio'r iaith leiafrifol gyda phobl oedrannus, er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gwasanaeth gorau posibl.

Serch hynny, dylai athrawon iaith feddu ar wybodaeth sylfaenol am sgiliau proffesiynol yn y sector gofal. Felly, byddai'n ddelfrydol addysgu iaith a sgiliau proffesiynol gyda'i gilydd, h.y. addysgu ar y cyd.

Mae rhan nesaf y bennod hon yn cynnig esboniadau a phwyntiau manwl am y dulliau addysgegol gwahanol. Cewch ddolenni i ddeunydd manylach ar ddefnyddio'r dulliau hyn gyda'r myfyrwyr, gan gynnwys deunydd cefndir megis nodiadau'r athro, enghreifftiau pendant ar gyfer ymarferion, yn ogystal â disgrifiadau a fideos. Gallwch hefyd weld neu lawrlwytho **nodiadau'r athro** yn uniongyrchol o'r pecyn cymorth yn B2.

Nod y bennod hon:

Mae'r bennod hon wedi'i hanelu'n benodol at athrawon iaith neu athrawon hyfforddiant galwedigaethol er mwyn eu helpu i gynllunio a chreu cyrsiau a dosbarthiadau drwy safbwyntiau gwahanol. Mae'n ceisio rhoi cyngor ar bynciau gwahanol, er enghraifft y defnydd o efelychiadau a chwarae rôl, effaith sosioieithyddiaeth, crefydd a materion rhyngddiwylliannol eraill er mwyn helpu athrawon i gynnwys agweddau o'r fath yn eu dosbarthiadau. Bydd cyfle hefyd i athrawon ychwanegu eu ffeiliau enghreifftiau eu hunain.

## B.1. CYFLWYNIAD – DULLIAU DYSGU AMLDDISGYBLAETHOL

Mae'r defnydd o ddulliau arloesol yn ddymunol yn gyffredinol ac yn cael ei gydnabod yn eang mewn addysgeg iaith. Caiff y dulliau methodolegol sy'n ysbrydoli ac yn bwydo'r pecyn cymorth hwn eu defnyddio wrth ddysgu ac addysgu iaith ar lefel ryngwladol, e.e.

- CLIL (Dysgu Cynnwys ac Iaith Integredig)
- Dysgu Seiliedig ar Broblemau.
- Drama a theatr wrth ddysgu iaith dramor.
- Senarios

Mae dysgu iaith leiafrifol, yn enwedig fel mudwr ar gyfer anghenion gweithle arbennig, yn cynnwys rhai heriau ychwanegol nad ydynt yn codi wrth ddysgu iaith fwyafrifol. Fel yr eglurwyd mewn penodau blaenorol, mae'r heriau hyn yn deillio o ddau ffactor – sefyllfa sosioieithyddol ieithoedd lleiafrifol/mwyafrifol a'r angen i ddysgu a defnyddio'r ddwy iaith.

Mae'r bennod hon yn ystyried dulliau methodolegol a all ateb yr heriau hyn. Rhaid i'r ffactorau hyn gael eu hystyried bob amser wrth addysgu ieithoedd lleiafrifol ar gyfer anghenion y gweithle, ac yn yr un modd, rhaid iddynt gael eu cynnwys yn y fethodoleg a ddefnyddir a'r ymarferion a roddir i fyfyrwyr. Mae'r bennod hon yn cynnig ffyrdd o ymdrin â'r meysydd gwahanol sy'n dylanwadu ar y broses o addysgu iaith i fudwyr at ddibenion y gweithle (gofal iechyd/gofal i'r henoed). Y nod yw i bob athro gasglu syniadau i ateb heriau uniongyrchol yn eu cyrsiau ac enghreifftiau o ffyrdd o weithio arnynt drwy gyfrwng ymarferion.

Mae'r fethodoleg a ddefnyddir i ddysgu iaith leiafrifol fel ail neu drydedd iaith (L2/L3) yn wahanol i'r hyn a ddefnyddir i ddysgu iaith fwyafrifol. Yn y rhan fwyaf o achosion caiff mudwyr gyrsiau rheolaidd yn yr iaith fwyafrifol (Gweler Allbwn 1 COMBI). Yr her sy'n gysylltiedig ag addysgu ieithoedd lleiafrifol yw gwneud gwahaniaeth. Mae hyn yn golygu bod angen cymell y dysgwyr a'u helpu i ddeall defnyddioldeb yr iaith leiafrifol.

Ein nod yw i'r penodau hyn fod yn sail i fyfyrion yn ogystal â chynnig syniadau ar gyfer ymarferion y gall gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio ar y themâu hyn eu defnyddio.

## B.2. DULLIAU AMLDDISGYBLAETHOL O ADDYSGU IAITH (CYFFREDINOL)

### Dulliau methodolegol:

#### → Ysgogi gwybodaeth (broffesiynol ac ieithyddol) y dysgwr:

- Mae'r unedau dysgu yn cynnwys rhannu profiadau a gwybodaeth yn ogystal â thargeddu profiad proffesiynol ym maes gofal i'r henoed gan ddefnyddio'r iaith leiafrifol (L2).
- Mae'r ffocws ar wybodaeth broffesiynol ym maes gofal i'r henoed drwy ymarferion dan arweiniad. Y nod yw helpu myfyrwyr i ddeall yn well eu hanghenion ieithyddol gwirioneddol yn y gwaith, yn ogystal â'u grymuso drwy roi gwerth i'w sgiliau proffesiynol (ni wahaniaethir rhwng gweithwyr â theitl a gweithwyr hunanaddysgol).
- Mae'r addysgu'n canolbwyntio ar wybodaeth am yr iaith leiafrifol (L2) drwy gyfrwng ymarferion pendant er mwyn helpu i feithrin ymwybyddiaeth o wybodaeth. Er bod nifer yn aml yn credu nad ydynt yn gwybod "dim byd o gwbl", yn aml maent yn sylweddoli eu bod wedi dysgu geirfa neu frawddegau sylfaenol y maent wedi eu clywed neu eu darllen dros amser.
- Mae myfyrio ar y pwyntiau hyn a'u rhoi ar waith yn golygu bod angen defnyddio'r iaith fyafrifol (L1/P1) fel iaith gyfathrebu ar y cwrs.

#### Gweler yr ymarferion: [Ymarfer SYMUDEDD 2.](#)

**Gweler nodiadau'r athro:** 3. Addysgu iaith. 3.2. Pwnc: sut i ysgogi gwybodaeth am iaith: sut i gymell myfyrwyr i ddefnyddio eu hiaith bresennol.

#### → Defnyddio deunydd a lleoedd go iawn:

Mae defnyddio deunydd go iawn a ffisegol yn helpu'r broses ddysgu. Gall y myfyrwyr weld a chyffwrdd â'r hyn y maent yn ei drafod.

#### Enghraifft:

- “Ga i'r tywel, os gwelwch chi'n dda?” (tywel go iawn)  
Pa dywel, yr un coch neu'r un glas?” (dau dywel o liw gwahanol)  
"Yr un glas, ond nid yr un bach, yr un mawr ...” (dau dywel glas o faint gwahanol).

Mae'r rhyngweithio hwn, megis cyffwrdd â'r gwrthrych a'i ddefnyddio, yn ysgogi'r holl synhwyrau ac yn helpu'r myfyrwyr i gofio enwau, gweithredoedd a strwythurau (yn hytrach na dilyn gwerslyfr).

- Mae'r deunydd a ddefnyddir yn eitemau sy'n ymddangos mewn gwaith bob dydd. Mae natur gyfarwydd y gwrthrychau neu'r gweithredoedd (fel helpu rhywun i godi o'r gwely, hongian dillad, paratoi bwyd, ac ati) yn helpu'r myfyrwyr i ddysgu ar gof.
- O ganlyniad, maent yn teimlo'n debycach i weithwyr a gweithwyr proffesiynol na disgyblion yn yr ysgol.



- Mae'r defnydd o le a symudiadau yn yr hyfforddiant hefyd yn eu helpu i ddeall a chofio ystyr geiriau, cysyniadau ac anghenion cyfathrebu.



### Enghraifft:

"Mae angen fy sbectol arna i"

"Ble maen nhw?"

"Ar fwrdd y gegin, efallai" – mae'r myfyriwr yn codi, yn mynd i'r gegin neu ardal sydd wedi'i dynodi'n gegin, ac yn edrych ar fwrdd go iawn.

Os oes yna bâr go iawn o sbectol: "Dyma nhw."

Os nad oes, "Na, dydyn nhw ddim ar y bwrdd."

- Mae defnyddio deunyddiau a lle yn llawer haws os yw'r dysgu'n digwydd yn y gweithle. Serch hynny, gall yr ystafell ddisbarth hefyd fod yn rhywle lle gallwch gynnwys deunydd sy'n hawdd ei gario. Efallai y bydd sefydliad yn barod i roi benthyg deunydd i chi yn ystod y cwrs.
- Gellir symboleiddio geiriau a chysyniadau drwy luniau neu fathau eraill o wrthrychau (lleoedd allanol, bwyd, ac ati).
- **Gweler ymarferion: Uned Addysgu 1: "Hylendid", ymarfer 2.**
- **Gweler ffeiliau'r athro: 3. Addysgu iaith. 3.3. Pwnc: defnyddio deunydd go iawn: sut i ddefnyddio deunyddiau go iawn.**

### → Defnyddio drama ac ymarferion ymarferol:

- Rydym yn gwahaniaethu yma rhwng drama/efelychiad ac ymarferion ymarferol.
  - Gall ymarfer ymarferol gysylltu geiriau/ymadroddion â gweithredoedd pendant ond nid â sefyllfa bywyd go iawn o reidrwydd (e.e. rhoi'r tywel ar y bwrdd, o dan y bwrdd, ar y gadair, ar y seidbord, yn ymyl y gadair, ac ati). Gall hefyd gynnwys ymarfer y broses o egluro beth i'w ddweud wrth helpu rhywun yn y gawod, heb o reidrwydd chwarae rôl.
  - Mae drama/efelychiad yn golygu bod y myfyriwr yn chwarae rôl benodol, e.e. helpu unigolyn i mewn i'r gawod ac, yn sydyn, mae'r unigolyn yn teimlo'n sâl – beth y byddai'n ei ddweud/gwneud?
- Tra bod ymarferion ymarferol yn helpu i gaffael iaith, mae efelychiadau yn helpu i'w chymhwyso drwy weithio ar ymreolaeth, cymwyseddau strategol, a hefyd dysgu am yr hyn y gellir, ac na ellir, ei ddweud.

**Gweler ymarferion:** Uned Addysgu 1: "Hylendid", ymarferion 3, 4 ac Uned Addysgu 2: "Cymhelliant a Symudedd", ymarfer 4.

**Gweler nodiadau'r athro:** 3: Dysgu geirfa 3.1. Pwnc: Dysgu geirfa: sut i weithio ar eirfa.

### → Rhoi gwybodaeth sylfaenol i athrawon iaith am sgiliau proffesiynol:



- Byddai'n ddymunol i athro iaith feddu ar wybodaeth sylfaenol am broffesiwn y myfyrwyr/gweithwyr. Mae'n rhoi dealltwriaeth well i'r athro o'r swyddogaethau canlynol:
  - Diben proffesiynol y sgwrs (gwerthu, helpu, arwain)
  - Pa gywair iaith i'w ddefnyddio, a phryd
  - Deall yr hyn y mae'r gweithwyr yn ei wneud yn ystod y dydd
  - Llunio meini prawf personol o ran "arferion da" yn y proffesiwn (e.e. wrth roi gofal i'r henoed, mae'n arfer da gofyn a yw'r unigolyn yn gallu neu'n awyddus i wneud rhywbeth ar ei ben ei hun, hyd yn oed os dywed y gweithwyr/myfyrwyr eu bod yn gwneud hyn oherwydd diffyg amser).
  - Deall sut i hybu ymreolaeth person oedrannus (Mae cymhelliant yn allweddol, ac mae'n bwysig iawn gweithio gydag empathi. Dylai gweithwyr gofal drin pobl oedrannus mewn ffordd sensitif iawn wrth eu hannog i wneud pethau a'u hargyhoeddi eu bod yn ddefnyddiol i bobl eraill ac iddyn nhw eu hunain.)

**Gweler ymarferion:** Uned Addysgu 1: "Hylendid", ymarfer 2, 3; Uned Addysgu 2: "Cymhelliant a symudedd", ymarfer 2

**Gweler nodiadau'r athro:** 1. Sgiliau proffesiynol. Gofal i'r henoed. 1.1. Pwnc: dibyniaeth ac ymreolaeth: cymell yr henoed

→ **Rhoi gwybodaeth sylfaenol i athrawon hyfforddiant galwedigaethol am sgiliau addysgu iaith:**

- Nid yw athrawon hyfforddiant galwedigaethol o reidrwydd wedi arfer ag addysgu iaith; yn enwedig iaith leiafrifol. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd gan fyfyrwyr ac athrawon iaith yn gyffredin (P1), ond y byddant yn gorfod dechrau cyfathrebu â'i gilydd yn yr iaith leiafrifol (L2/L3)
- Y ffordd orau o feithrin dealltwriaeth o'r broses o addysgu iaith yw drwy roi hyfforddiant penodol ar y pwnc hwn i athrawon hyfforddiant galwedigaethol.
- Serch hynny, mae athrawon hyfforddiant galwedigaethol yn meddu ar lawer o sgiliau y gallant eu defnyddio, er enghraifft chwarae rôl, drama a deunydd go iawn.
- Byddwch yn ymwybodol o'r hyn y mae'r myfyrwyr eisoes wedi'i ddysgu a'r hyn nad ydynt wedi'i ddysgu, gan addasu eich dull addysgu yn unol â hynny wrth gynnal yr ymarferion.
- Mae addysgu iaith yn golygu mwy nag addysgu geirfa, er y gall dysgu un gair neu un frawddeg wneud gwahaniaeth.

**Gweler ymarferion:** [Uned Addysgu 1: "Hylendid"](#), [ymarfer 2](#), [3](#).

**Gweler nodiadau'r athro:** 3. Addysgu iaith. 3.1. Pwnc: dysgu geirfa: sut i weithio ar eirfa.



→ **Amrywiaeth ddiwylliannol a chrefyddol: gwybodaeth sylfaenol:**

- Rhaid i athro ddeall a derbyn efallai na fydd gan fudwyr yr un amodau dysgu â phobl leol (heb farnu hynny).
- Mae'n bosibl y bydd gan ddysgwyr mudol hanes personol trawmatig, y byddant wedi colli eu statws fel gweithiwr proffesiynol neu riant, ac y byddant yn wynebu ansefydlogrwydd economaidd neu gymdeithasol yn y wlad letyol, ac ati.
- Gall gwahaniaethau eraill ddeillio o wahaniaethau diwylliannol cyffredinol, fel y cysyniad o amser, y ffordd o ddysgu, dulliau rhyngweithio diwylliannol, modelau rôl rhywedd, ac ati.
- Fel rhan o raglen hyfforddi athrawon, mae angen i athrawon ddysgu sut i feithrin agwedd gefnogol at fudwyr heb fod yn nawddoglyd; yn lle hynny, mae angen iddynt eu helpu i roi gwerth i'r pynciau y maent yn eu dysgu.
- Ar yr un pryd, rhaid i athro eu helpu i feithrin agweddau newydd drwy, er enghraifft, newid safbwyntiau am rolau rhywedd, amrywiaeth ddiwylliannol, amrywiaeth rywiol, amrywiaeth grefyddol, ac ati.

**Gweler ymarferion:** [Uned Addysgu 1: "Hylendid", ymarferion 1, 4.](#)

**Gweler nodiadau'r athro:** Maes 4: Efelychiadau. 4.2. Pwnc: amrywiaeth ddiwylliannol. 4.2. Amrywiaeth ddiwylliannol yn yr ystafell ddosbarth. 4.3. Pwnc: crefydd: ystyried ffactorau crefyddol wrth chwarae rôl.

### B 1.3. DULLIAU AMLDDISGYBLAETHOL O ADDYSGU IAITH LEIAFRIFOL

#### → Cyfryngu ffactorau sosioieithyddol: iaith fwyafrifol a lleiafrifol:

- Yn aml, nid anwybodaeth yw'r rheswm dros beidio â defnyddio iaith leiafrifol, ond diffyg hyder a'r gallu i adnabod neu ddeall pwysigrwydd yr iaith i'r derbynnydd.
- Mae'r rhain yn ffactorau nodedig sy'n dangos gwahaniaeth pwysig rhwng y broses o ddysgu iaith fwyafrifol ac iaith leiafrifol.
- Gellir addysgu ffactorau sosioieithyddol fel mater allweddol yn ystod yr hyfforddiant (e.e. dechrau'r hyfforddiant drwy gynnal gweithdy ar ffactorau sosioieithyddol neu eu cyflwyno'n raddol yn ystod y cwrs).
- Gall ffactorau sosioieithyddol hefyd fod yn rhan o ymarferion addysgu, yn enwedig gweithgareddau chwarae rôl ar gyfer cymwyseddau strategol, e.e. Rydych yn dysgu geirfa a gramadeg er mwyn siarad am faterion cymdeithasol (Sut mae dy deulu?), rydych yn dechrau siarad ac ar ryw bwynt, ni fyddwch yn deall mwyach. Sut y byddwch yn ymateb? Neu, er enghraifft, mae siaradwyr brodorol iaith leiafrifol yn siarad â chi yn yr iaith fwyafrifol hyd yn oed os ydych yn ceisio defnyddio'r iaith leiafrifol. Sut y gallwch eu darbwyllo i newid?

**Gweler ymarferion:** [Uned Addysgu 1: "Hylendid", ymarfer 1, 4;](#) [Uned Addysgu 2: "Cymhelliant a symudedd", ymarfer 2, 4.](#)

**Gweler nodiadau'r athro:** 2. Sosioieithyddiaeth: 2.1 Pwnc: iaith leiafrifol/iaith swyddogol: y defnydd o'r ddwy iaith gyda'r nod o fodloni'r amcanion cyfathrebu.

#### → Defnyddio'r iaith fwyafrifol fel ased mewn cyd-destun proffesiynol:

- Bydd gan lawer o weithwyr mudol a gyflogir ym maes gofal i'r henoed eisoes wybodaeth (sylfaenol) am iaith fwyafrifol y gymuned letyol (neu fel arall, eu mamiaith). Yn aml, mae hyn yn golygu bod ganddynt eisoes iaith y gallant ei defnyddio i gyfathrebu â'u cleientiaid.
- O gymharu â gwledydd ag un iaith letyol, mae dysgu iaith mewn cymunedau lletyol dwyieithog yn cyflwyno heriau penodol oherwydd mae'n bosibl bod siaradwyr newydd eisoes yn dilyn bywyd cymdeithasol a phroffesiynol yn yr iaith fwyafrifol. Heb bolisiau iaith uniongyrchol i orfodi'r defnydd o'r iaith leiafrifol, mae'n bosibl y bydd angen gwneud mwy i'w cymell i'w dysgu a'i defnyddio.



- Gall dysgu sut i newid arferion iaith fod yr un mor bwysig â chaffael yr iaith leiafrifol. Dyma'r rheswm pam y mae'n rhaid i'r ymarferion hyn hefyd gynnwys y gydberthynas rhwng yr iaith fwyafrifol a'r iaith leiafrifol yn y gweithle.
- Gall dysgu'r iaith fwyafrifol fod yn ased a gellir hefyd ei defnyddio wrth gaffael yr iaith leiafrifol.
- Gellir dysgu grwpiau o eiriau yn yr iaith leiafrifol gan ddefnyddio'r iaith fwyafrifol mewn pynciau mwy cymhleth, (e.e. gellid defnyddio'r iaith leiafrifol i baratoi pryd o fwyd gyda'r cleient ond gellid defnyddio'r iaith fwyafrifol i ailadrodd yr hyn a ddywedodd y meddyg ynglŷn â defnyddio meddyginiaeth newydd).
- Nid yw hyn yn golygu cysylltu'r iaith leiafrifol ag ymarfer symbolaidd gan ddefnyddio'r iaith fwyafrifol fel yr unig iaith gyfathrebu. Yn hytrach, gall yr iaith fwyafrifol helpu i ysgogi'r defnydd o'r iaith leiafrifol, hyd yn oed os na ellir rheoli pob agwedd ar y defnydd o iaith.

**Gweler ymarferion:** [Uned Addysgu 1: “Hylendid”, ymarfer 4; Uned Addysgu 2: “Cymhelliant a symudedd”, ymarfer 4.](#)

**Gweler ffeiliau'r athro:** 2. Sosioieithyddiaeth. 2.1 Pwnc: iaith leiafrifol/iaith swyddogol: y defnydd o'r ddwy iaith gyda'r nod o fodloni'r amcanion cyfathrebu.

→ **Gweithio ar gyfathrebu fel rhinwedd broffesiynol**

- Dylid ymdrin â sgiliau cyfathrebu at ddefnydd proffesiynol mewn modd cynhwysfawr. Mae hyn yn awgrymu y caiff ystyr y neges/cyfathrebu mewn cyd-destun proffesiynol ei ystyried, yn ogystal â gramadeg a'r defnydd cywir o iaith.
- Er enghraifft, gall defnyddio geiriau unigol gyfleu parch tra y gall defnyddio brawddegau cywir heb empathi na dealltwriaeth o sefyllfa'r person oedrannus fod yn amhroffesiynol.
- Rhaid i'r athro iaith wybod/dysgu am reolau a nodau proffesiynol y sgwrs.

**Gweler ymarferion:** [Uned Addysgu 2: “Cymhelliant a symudedd”, ymarferion 2, 4.](#)

**Gweler ffeiliau'r athro:** 1: Sgiliau proffesiynol ym maes Gofal i'r henoed, 1.1. Pwnc: dibyniaeth ac ymreolaeth: cymell yr henoed

→ **Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr iaith leiafrifol:**



- Mae yna lawer o ddulliau a damcaniaethau addysgegol sy'n gwahaniaethu rhwng dysgu a defnyddio iaith leiafrifol a dysgu a defnyddio iaith fwyafrifol. Mae'n bwysig neilltuo amser i astudio'r ffactorau hyn ar ddechrau cwrs iaith a thrwy gydol y cwrs hwnnw.
- Nid yw llawer o fudwyr yn gwybod am fodolaeth na rôl iaith leiafrifol pan fyddant yn dechrau byw/gweithio mewn gwlad. Mae'n bwysig rhoi'r wybodaeth hon iddynt er mwyn ennyn eu diddordeb a'u helpu i feithrin agwedd gadarnhaol at yr iaith a pholisïau iaith yn y gweithle.
- Ar wahân i ddealltwriaeth gyffredinol o rôl iaith leiafrifol, mae'n bwysig hefyd fod y gweithiwr/myfyriwr yn deall rôl yr iaith yn y gweithle fel ffactor cyflogadwyedd a rhwymedigaeth i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i'r defnyddiwr/cleient.
- Dangoswyd bod defnyddio iaith leiafrifol gyda siaradwyr iaith leiafrifol sy'n agored i niwed (e.e. yr henoed) yn gwella 'ansawdd' y gofal a roddir i'r siaradwr a'i deulu (e.e. Gweler 'Mwy na Geiriau' (Gweler y Rhestr Dolenni yn B3).)

**Gweler ymarferion:** [Uned Addysgu 1: "Hylendid"](#), ymarfer 1; [Uned Addysgu 2: "Cymhelliant a symudedd"](#), ymarfer 4.

**Gweler nodiadau'r athro:** 2. Sosioieithyddiaeth. PWNC: Ymwybyddiaeth o iaith leiafrifol: meithrin ymwybyddiaeth o rôl a gwerth iaith leiafrifol.

## B2: PECYN CYMORTH

### Nodiadau'r Athro – MYNEGAI:

#### Sgiliau proffesiynol ym maes gofal i'r henoed.

- 1.1. **Pwnc: dibyniaeth ac ymreolaeth:** cymell yr henoed.
- 1.2. **Pwnc: dibyniaeth ac ymreolaeth:** hybu ymreolaeth yr henoed

#### Sosioieithyddiaeth.

- 2.1. **Pwnc: iaith leiafrifol/iaith swyddogol:** defnyddio'r ddwy iaith er mwyn diwallu anghenion cyfathrebu
- 2.2. **Pwnc: ymwybyddiaeth o iaith leiafrifol:** ymwybyddiaeth o rôl a gwerth iaith leiafrifol

#### Addysgu iaith.

- 3.1. **Pwnc: dysgu geirfa:** sut i weithio ar eirfa.
- 3.2. **Pwnc: sut i ysgogi gwybodaeth am iaith:** ysgogi iaith bresennol myfyrwyr.
- 3.3. **Pwnc: defnyddio deunydd go iawn:** sut i ddefnyddio deunyddiau go iawn.

#### Efelychiadau a chwarae rôl.

- 4.1. **Pwnc: yr hanfodion:** beth yw nodau pob efelychiad/ymarfer chwarae rôl?
- 4.2. **Pwnc: amrywiaeth ddiwylliannol:** amrywiaeth ddiwylliannol yn yr ystafell ddosbarth.
- 4.3. **Pwnc: crefydd:** ystyried ffactorau crefyddol wrth chwarae rôl

#### Didacteg.

- 5.1. **Pwnc: myfyrdodau:** sut i arwain trafodaethau â myfyrwyr

Nodiadau'r Athro	Sgiliau proffesiynol ym maes gofal i'r henoed.
Rhif: 1.1.	<b>Pwnc:</b> Cymell yr henoed
<p><b>Cymell yr henoed</b></p> <p>Mae achosion o iselder a diffyg cymhelliant yn gyffredin iawn ymhlith pobl oedrannus. Y bobl sy'n dioddef fwyaf yw'r rhai sy'n byw ar eu pen eu hunain neu'r rhai nad oes ganddynt fawr ddim cyswllt cymdeithasol. Maent yn colli'r ewylllys a'r awydd i wneud gweithgareddau gwahanol a chyflawni dyletswyddau bob dydd fel bwyta, glanhau, mynd allan, uniaethu â phobl eraill, ac ati.</p> <p>Mae eu hobiau, eu hamgylchedd, eu cydberthnasau cymdeithasol ac ysgogiadau allanol yn dylanwadu'n fawr ar eu cymhelliant. Pan nad oes ganddynt fawr ddim cyswllt â'r teulu, mae cyswllt â gofalwyr yn dod yn hollbwysig, yn enwedig y rhai hynny y maent yn eu gweld bob dydd.</p> <p>Mae yna rai egwyddorion y dylid eu hystyried mewn perthynas â gofal i'r henoed.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Gofynnwch i'r person oedrannus am ei fywyd bob dydd:</b> ei lesiant, ei arferion cysgu, ei brydau bwyd ...</li> <li>• <b>Siaradwch ag ef am bethau gwahanol:</b> y tywydd, y teulu, rhaglenni teledu, ymweliadau meddygol, gweithgareddau ...</li> <li>• <b>Rhowch sicrwydd iddo fod ei feddyliau a'i ddymuniadau yn berthnasol.</b> Er mwyn gwneud hyn, gallwn ofyn iddo beth y cafodd i'w fwyta, beth y gwnaeth ei wisgo neu pa raglen deledu y mae'n ei gwyllo, beth y mae'n ei ddarllen yn y papur newydd ...</li> </ul> <p>Weithiau, ni fydd yn ymateb i unrhyw ysgogiad nac yn dangos unrhyw ddiddordeb mewn dim, felly cyfrifoldeb y gofalwr fydd cynyddu ei gymhelliant. Dyma rai strategaethau ar gyfer y sefyllfaoedd hyn;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>– <b>Adborth Cadarnhaol.</b> Ceisiwch gydnabod rhywbeth cadarnhaol neu sydd wedi cael ei wneud yn dda, er enghraifft "rydych chi'n edrych yn dda", "rydych chi'n symud eich coes yn well heddiw".</li> <li>– <b>Dywedwch wrth y person oedrannus am rywbeth y mae'n ei hoffi neu y gall edrych ymlaen ato.</b> Er enghraifft, mae ei wŷr yn ymweld ag ef ar y penwythnos, awgrymwch y gallai chwarae gêm o gardiau y prynhawn 'ma neu wyllo rhaglen deledu arbennig heno.</li> </ul> <p><b>Awgrymwch rywbeth i wneud i rywun deimlo'n well.</b> Os bydd person oedrannus yn teimlo'n drist, awgrymwch y gallai mynd am dro, codi, gwisgo, cael cawod, chwarae gêm neu fynd i gaffi wneud byd o les.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>– Peidiwch ag <b>anwybyddu teimladau fel tristwch neu boen.</b> Mae'n berffaith iawn i rywun deimlo fel hyn, a rhaid i'r gofalwr dderbyn hynny ond dylai hefyd awgrymu atebion cadarnhaol.</li> </ul>	

Nodiadau'r Athro	Sgiliau proffesiynol ym maes gofal i'r henoed.
Rhif: 1.2	<b>Pwnc:</b> Dibyniaeth ac Ymreolaeth
<b>Hybu ymreolaeth yr henoed</b>	
<p>Er y gall person fod yn ddibynnol, mae amgylchedd cymdeithasol y claf yn bwysig iawn ac mae'n cael effaith fawr ar ei allu i gynnal annibyniaeth neu'r broses o hybu annibyniaeth mewn rhai gweithgareddau.</p> <p>Cyfrifoldeb y gofalwr yw hybu ymreolaeth. Er mwyn gwneud hyn, y canllawiau cyffredinol yw "Peidiwch byth â gwneud dim i rywun sy'n gallu ei wneud drosto ef ei hun." I'r gwrthwyneb, dylai'r gofalwr annog a helpu'r person oedrannus i wneud pethau drosto ef ei hun.</p> <p>Er mwyn gwneud hyn, mae cyfathrebu ac amynedd yn hollbwysig.</p> <p>Drwy gyfathrebu rydym yn dysgu am yr hyn y gall person ei wneud a'r hyn na all ei wneud. Os ydych yn ansicr ynglŷn â'i allu i wneud rhywbeth, dechreuwch drwy ofyn cwestiynau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- "Ydych chi'n gallu gwneud hynny?"</li> <li>- "Ydych chi'n gallu gwneud hynny ar eich pen eich hun?"</li> <li>- "Os wna i dorri'r cig, allwch chi ei fwyta â'ch fforc?"</li> </ul> <p>Ceisiwch ddefnyddio brawddegau cymhellol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>– "Rhowch gynnig arni eich hun!"</li> <li>– "Beth am drïo ei wneud fel hyn!"</li> <li>– "Pwyll piau hi .... Cymerwch eich amser."</li> </ul> <p>Er y byddai'n gynt i chi gwblhau'r dasg eich hun, ceisiwch beidio â gwneud hyn er mwyn cynnal ymreolaeth y person oedrannus i'r eithaf.</p>	

Nodiadau'r Athro	Sosioieithyddiaeth
Rhif: 2.1	<b>Pwnc:</b> Iaith swyddogol/leiafrifol

### Defnyddio'r ddwy iaith er mwyn diwallu anghenion cyfathrebu

Mae ieithoedd lleiafrifol wedi'u henwi felly am eu bod yn byw ochr yn ochr ag ieithoedd mwy a chryfach. Heddiw, mae'r mwyafrif o bobl, os nad pawb, sy'n byw mewn ardaloedd ieithoedd lleiafrifol hefyd yn gwybod iaith fwyafrifol y wladwriaeth. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y caiff pob mater yn ymwneud ag iaith ei ddatrys. Yn wir, mae'n bosibl y bydd y person sy'n siarad yr iaith leiafrifol fel mamiaith am fynegi ei ddymuniadau yn yr iaith honno, neu y bydd angen iddo wneud hynny. Yn hyn o beth, byddai'r person yn trosglwyddo gwybodaeth mewn ffordd fwy effeithlon. At hynny, gall defnyddio'r iaith leiafrifol atgyfnerthu'r cyfathrebu, gan feithrin hyder a chydberthynas agosach rhwng y bobl sy'n rhan o'r sgwrs.

Dyna pam y maen bwysig bod y gofalwr sy'n dysgu'r iaith leiafrifol yn ceisio sicrhau ei fod yn defnyddio geiriau ac ymadroddion o'r cychwyn cyntaf er mwyn meithrin cydberthynas agos ac ymddiriedus yn hytrach nag aros nes ei fod yn fwy rhugl.

- Mewn rhai meysydd pwnc, efallai y byddwch yn teimlo bod angen trosglwyddo ystyr mewn ffordd gywir a sensitif. Mae'r pynciau hyn yn cynnwys **teimladau a digwyddiadau pwysig mewn bywyd, problemau iechyd, gwybodaeth benodol am amser, dyddiadau a lleoedd.**
- Yn yr achosion hyn, rhaid i'r cyfathrebu fod yn glir ac yn gywir, ac felly, gall hyn gyfyngu ar y defnydd a wneir o'r iaith leiafrifol.

Nid yw hyn yn golygu y dylid cyfathrebu'n gyfan gwbl yn y naill iaith neu'r llall yn y sefyllfaoedd hyn, fel y credir ac fel sy'n digwydd yn aml. Dylid ystyried bod defnyddio'r ddwy iaith yr un fath ag ychwanegu arlliwiau gwahanol o lwyd at yr hyn sydd fel arfer yn cael ei ystyried yn ddu a gwyn. Dylid ystyried bod defnyddio'r ddwy iaith mewn ffordd hyblyg yn fantais yn yr achos hwn.

**Awgrym: Gall chwarae rôl helpu i gymhwyso'r strategaethau hyn**

Nodiadau'r Athro	Socioieithyddiaeth
Rhif: 2.2	<b>Pwnc:</b> Ymwybyddiaeth o iaith leiafrifol
<p><b>Ymwybyddiaeth o rôl a gwerth iaith leiafrifol</b></p> <p>Mae pwysigrwydd amrywiaeth ieithyddol wedi cynyddu'n sylweddol dros y degawdau diwethaf. Mae hyn wedi cael ei lywio gan ymgyrchoedd dros hawliau dynol, gan gynnwys hawliau ieithyddol a diwylliannol. Mae Siarter Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol Ewrop yn enghraifft o gynnydd ieithoedd lleiafrifol ar lefel Ewropeaidd. Mae sefydliadau eraill fel ELEN ac NPLD hefyd yn cefnogi'r amcanion hyn. Ar lefel genedlaethol, mae dinasyddion yn y gymuned iaith leiafrifol ranbarthol yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r ymdrechion i adfywio'r iaith leiafrifol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir i lawer o fudwyr, sydd ond yn dod i wybod am y gymuned iaith leiafrifol drwy sianeli'r wladwriaeth. Mewn nifer o achosion, mae hyn yn golygu nad ydynt yn ymwybodol o fodolaeth yr iaith na'i rôl mewn bywyd cymdeithasol a phroffesiynol. Gall hyn hefyd fod yn wir i fudwyr mewnol i'r gymuned iaith leiafrifol.</p> <p>Felly, mae ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol o'r iaith leiafrifol yn adnodd allweddol i'w gynnwys mewn gwersi a gweithgareddau ymarferol. Gellir cynnal y gweithgareddau hyn ar ddechrau'r cwrs, ond argymhellir eich bod yn integreiddio ac yn meithrin ymwybyddiaeth o'r iaith o fewn y cwrs yn gyffredinol. Dim ond wrth ddefnyddio'r iaith leiafrifol am y tro cyntaf y bydd siaradwyr newydd yn gallu deall llawer o'r sefyllfaoedd y byddant yn dod ar eu traws.</p> <p>Gall gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth gynnwys:</p> <p><b>Gwybodaeth am yr iaith leiafrifol: hanes, diwylliant, statws cyfreithiol, presenoldeb mewn bywyd cyhoeddus</b> (y cyfryngau, addysg, bywyd gwaith, ac ati). Mewn nifer o achosion, mae sefyllfa'r iaith leiafrifol yn gwbl ddieithr i'r rhai nad ydynt yn ei siarad. Mae dangos realiti'r iaith yn ennyn eu diddordeb, yn ogystal â herio agweddau negyddol at yr iaith leiafrifol a all gael eu trosglwyddo gan bobl eraill yn y gymuned. Mae hefyd yn gyfle iddynt ddysgu a deall mwy am eu hieithoedd eu hunain, y gall llawer ohonynt fod yn ieithoedd lleiafrifol eraill.</p> <p><b>Mesurau a pholisïau i adfywio a normaleiddio iaith:</b> Yn wahanol i gydraddoldeb rhywiol neu hiliol, mae'n bosibl nad yw llawer o bobl yn ymwybodol o iaith. Mae'n bwysig deall consensws cymdeithasol a gwleidyddol yr iaith leiafrifol yn y gymdeithas sydd ohoni ac ystyried eich hun yn rhan o'r consensws hwn, hyd yn oed fel mudwr, ac nid yn "ddioddefwr" polisi iaith.</p> <p><b>Grymuso iaith</b> (hunanhyder, mynd i'r afael â rhagfarnau, ac ati): Mae angen grymuso siaradwyr ieithoedd lleiafrifol er mwyn eu hadfywio. Mae pobl yn dewis peidio â defnyddio iaith leiafrifol am nifer o resymau cymdeithasol a hanesyddol cymhleth, sy'n gallu gwneud i bobl deimlo fel alltudion wrth ei ddefnyddio (rhywun nad yw'n perthyn i'r gymuned ymreolaethol), teimlo'n rhyfedd wrth siarad iaith lwythol wledig neu ofni bod yn genedlaetholgar, ac ati. Rhaid mynd i'r afael â'r pwyntiau hyn a'u goresgyn, er mwyn i bobl dysgu a defnyddio'r iaith.</p>	

**Amrywiaeth ieithyddol** (ecoleg iaith, hunaniaeth, treftadaeth ddiwylliannol): Mae'n ddefnyddiol deall nad rhywbeth sy'n bwysig ar lefel leol yn unig yw cynnal ieithoedd lleiafrifol, ond mae'n gysylltiedig ag ymgyrchoedd rhyngwladol ar ecoleg a threftadaeth ddiwylliannol fyd-eang. Mewn byd sy'n wynebu globaleiddio cynyddol, mae'r pwyslais ar y lefel leol a chenedlaethol yn fwyfwy dilys.

**Tafodiaith a chywair:** Gall fod pynciau penodol iawn eraill yn gysylltiedig ag ieithoedd lleiafrifol sy'n wahanol i ieithoedd mwyafrifol. Cafodd y rhan fwyaf o ieithoedd mwyafrifol Ewrop eu safoni ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'u cyffredinoli o fewn addysg orfodol a'r cyfryngau print. Yn achos ieithoedd lleiafrifol, digwyddodd y broses hon yn llawer mwy diweddar ac mewn ffyrdd amrywiol, os o gwbl. Weithiau, byddwn yn defnyddio geiriau gwahanol i'r rheini a addysgir mewn gwerau iaith safonol a'r rheini a ddefnyddir gan siaradwyr brodorol, fel pobl oedrannus. Mewn gweithdai penodol ar y pwnc hwn, gallwn ddysgu sut i feithrin agwedd gadarnhaol ac ystyried hyn yn rhywbeth sy'n cyfoethogi yn hytrach na niwsans!

#### **Sut i gynnwys y pynciau hyn mewn cwrs?**

- Gall athro sy'n gweithio ar y pynciau hyn gaffael nifer o adnoddau agored (y rhyngwyd, rhaglenni teledu, pamffledi)
- Mae llawer o gymdeithasau'n cynnig y posibilrwydd o wahodd gwirfoddolwyr i weithdai neu gynadleddau ar ymwybyddiaeth iaith.
- Mae yna hefyd ddarparwyr iaith sydd â rhaglenni arbennig i rymuso neu godi ymwybyddiaeth o iaith, sy'n cael eu haddasu yn unol ag anghenion grwpiau amrywiol.
- Gwahodd pobl i sôn am eu profiadau personol. Gall hyn gynnwys person oedrannus, rhywun sy'n siarad yr iaith lleiafrifol, mudwr sydd wedi dysgu'r iaith, cyfarwyddwr gwasanaethau gofal i'r henoed, rhywun enwog sy'n siarad yr iaith lleiafrifol, ac ati.

#### **Dewis blaenoriaethau:**

Nid oes rhaid i bob grŵp ymdrin â phob pwnc. Rhaid i'r athro benderfynu pa bwnc sy'n angenrheidiol i'w grŵp. Nid yw'n gwneud synnwyr neilltuo amser i adolygu sosioieithyddiaeth yr iaith lleiafrifol os nad yw'r myfyrwyr yn barod i fentro newid iaith yn eu gweithle.



Nodiadau'r Athro	Addysgu iaith
Rhif: 3.1	<b>Pwnc:</b> Dysgu geirfa
<p><b>Sut i weithio ar eirfa</b></p> <p>Cred llawer o bobl fod dysgu iaith yn ymwneud yn bennaf â dysgu geirfa. Fodd bynnag, y ffordd orau o ddefnyddio geirfa yw drwy ei chynnwys mewn strwythurau defnyddiol. Tasg yr athro iaith yw rheoleiddio'r wybodaeth a chynnig cyfleoedd i ymarfer yr hyn a ddysgwyd (rhaid i'r pethau newydd a ddysgir gael eu cymathu'n raddol drwy ymarfer).</p> <p>Ar ôl cyflwyno geirfa gyda lluniau neu gyfieithiadau, un opsiwn yw gweithio ar eirfa drwy ddefnyddio dulliau gwahanol, er enghraifft: Beth? Ble? Lluosog ...</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Beth ydych chi wedi ei weld heddiw?</li> <li>• Rydw i weld gweld coeden flodeuog.</li> <li>• A ble rydych chi wedi gweld y goeden flodeuog?</li> <li>• Ar y stryd.</li> <li>• Ac ydych chi hefyd wedi gweld coed blodeuog yn y parc?</li> <li>• Yn y parc, na, dim eto.</li> </ul> <p>Yn yr achos hwn, yr eirfa newydd fyddai 'coeden', 'blodeuog' a 'parc'. Yn gyntaf, rydym yn dysgu'r tri gair hyn gan ddefnyddio ymadroddion, cwestiynau ac atebion gwahanol (y mae'r dysgwr eisoes yn gyfarwydd â nhw). Gellir cymhwyso hyn ymhellach mewn sgwrs, er enghraifft:</p> <p>"Dychmygwch eich bod gyda'r person rydych yn gofalu amdano ac mae'r person hwn newydd fod am dro. Rydych yn gofyn iddi beth y mae hi wedi ei weld, ac mae'n siarad am flodyn ar goeden. Ceisiwch ddefnyddio'r cwestiynau a'r geiriau rydych wedi'u dysgu hyd yma."</p> <p>Y canlyniad fyddai rhywbeth tebyg i hyn:</p> <p>A: Juanita, sut hwyl gawsoch chi wrth fynd am dro? Beth welsoch chi ar y ffordd?  B: Coed.  A: Hyfryd. A oedd blodau ar y coed yn barod?  B: Oedd. Roedd blodau arnyn nhw!  A: A beth am y coed yn y parc?  B: Na, dim eto ar y coed yn y parc.</p> <p>Wedi hynny, gallwn ofyn i'r myfyrwyr adrodd y stori o safbwynt Juanita, y gofalwr, ac ati.</p> <p>Yn yr achos hwn, yr amcan yw dysgu'r geiriau "coeden flodeuog", gan ddefnyddio brawddegau byr a ddysgwyd o'r blaen.</p> <p>Ar y pwynt hwn, mae'r athro'n arwain y defnydd o eirfa, gan annog ymreolaeth y dysgwyr yn ogystal ag ymateb i'w pryderon.</p> <p>Noder: nid yw'n ddefnyddiol egluro geiriau a strwythurau nad ydynt yn rhan o'r ymarfer hwnnw. Mewn gwirionedd, nid proses o gasglu gwybodaeth yw dysgu, ond proses o gymathu a phrosesu'r wybodaeth honno er mwyn ei defnyddio mewn ffordd ymreolaethol ac ymarferol.</p>	

Nodiadau'r Athro	Addysgu iaith
Rhif: 3.2	<b>Pwnc:</b> Ysgogi gwybodaeth bresennol

### **Sut i ysgogi gwybodaeth bresennol am iaith**

Yn achos ieithoedd lleiafrifol, gall pobl fyw am flynyddoedd wedi'u hamgylchynu gan iaith ac eto honni eu bod yn gwybod dim amdani.

Serch hynny, drwy ysgogi creadigrwydd a greddf anymwybodol pobl a rhoi'r cyfle iddynt arbrofi, yn aml mae'n syndod faint o eirfa a gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg.

I athro, y cam cyntaf yw canfod ers pryd y mae'r myfyrwyr wedi byw yn yr ardal a ble mae'r iaith yn cael ei siarad. Mae'n bosibl mai'r gwahaniaeth fydd person a gyrhaeddodd ddeufis yn ôl o gyfandir arall a pherson sydd wedi byw mewn cymuned iaith leiafrifol ers dwy flynedd neu fwy. Dylai'r athro ofyn a oes gan rywun ychydig o wybodaeth flaenorol. Er enghraifft, wrth drafod pwnc fel bwyd, y cam cyntaf yw gofyn i aelodau'r grŵp enwau pa fwydydd (diodydd, dillad, chwaraeon) y maent yn eu gwybod yn yr iaith leiafrifol. Arhoswch am yr atebion ac anogwch y bobl i ateb, hyd yn oed os nad hwnnw yw'r ateb "swyddogol" cywir.

Gellir gwneud yr un peth mewn sefyllfaoedd cyfathrebu mwy cymhleth, e.e. gallwn ofyn i bobl sydd eisoes yn gweithio ym maes gofal i'r henoed rannu'r hyn y maent yn ei ddweud wrth godi rhywun o gadair. Mae llawer o bobl sy'n gweithio mewn ardal lle mae'r iaith leiafrifol yn cael ei siarad yn defnyddio geiriau neu ymadroddion byr o'r iaith leiafrifol, yn aml heb yn wybod iddynt.

Fel cam cyntaf, dylid annog y rhai sy'n gwybod "rhywbeth" i'w rannu, gan roi gwerth i'w gwybodaeth a'u hannog i barhau. Os bydd rhywun yn dechrau dweud yr hyn y mae'n ei wybod, bydd eraill yn mentro gwneud hynny hefyd. Rôl yr athro yn yr achos hwn yw annog a grymuso'r myfyrwyr i fod yn ymwybodol o'u gwybodaeth.

Ar ôl y cam hwn, gall yr athro gyflwyno rhagor o strwythurau a geirfa a gosod yr elfennau y mae'r myfyrwyr wedi'u rhannu mewn cyd-destun a brawddegau.

Nodiadau'r Athro	Addysgu iaith
Rhif: 3.3	<b>Pwnc:</b> Defnyddio deunydd go iawn

### **Sut i ddefnyddio deunyddiau go iawn**

I lawer o athrawon iaith, mae'n bosibl y bydd defnyddio deunyddiau go iawn yn gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus neu'n chwithig, neu'n mynd yn groes i'w safbwynt traddodiadol.

Serch hynny, mae defnyddio deunyddiau go iawn o fudd mawr iawn i gynnydd ac ymreolaeth y myfyrwyr, yn ogystal ag i lwyddiant gweithgareddau chwarae rôl. O ystyried hyn, dylai pob dosbarth iaith gynnwys cymaint o ddeunydd go iawn â phosibl.



#### **1. Symudedd deunydd go iawn**

Mae'n ddefnyddiol sicrhau bod y deunydd yn drefnus, yn lân ac yn cael ei gadw mewn bocsys, ynghyd â deunyddiau eraill fel llyfrau a llyfrau cofnodion.

Os yw'r cwrs iaith yn cael ei gynnal mewn canolfan hyfforddiant galwedigaethol neu yn y gweithle, mae'n bosibl y bydd rhai deunyddiau yno'n barod. Serch hynny, yn aml mae'n rhaid mynd â deunydd i'r ystafell lle mae'r cwrs yn cael ei gynnal, a'i gadw'n drefnus – neu ei ddychwelyd i'w fan priodol os yw'r ystafell yn cael ei defnyddio at ddibenion eraill ar wahân i'r cwrs.

Hyd yn oed mewn cartrefi gofal i'r henoed neu ganolfannau hyfforddiant galwedigaethol, yn aml mae'n rhaid dod ag eitemau a ystyrir yn eiddo personol, fel dillad, bwyd a chynnyrch cosmetig o'r tu allan. Dylai'r athro fod yn ymwybodol bod y gwaith o baratoi deunydd o'r fath hefyd yn rhan o'r cwrs a bod yn rhaid neilltuo amser i drefnu a chanfod yr hyn sydd ei angen, sut i'w gael, sut i'w gadw, sut i'w baratoi a sut i'w gario i'r dosbarth ac oddi yno.

Nodiadau'r Athro	Efelychiadau a gweithgareddau chwarae rôl
Rhif: 4.1	<b>Pwnc:</b> Canllawiau sylfaenol

### Beth yw nodau pob efelychiad?

- Cyn cynnal efelychiadau a gweithgareddau chwarae rôl, mae'n ddefnyddiol egluro'r nodau a'r fformat i'r myfyrwyr.
- Defnyddir efelychiadau ac ymarferion chwarae rôl i gysylltu brawddegau a geirfa â defnydd go iawn.
- Gellir defnyddio grwpiau o eiriau am y tro cyntaf mewn sgwrs neu mewn sefyllfa gyfathrebu wahanol drwy ychwanegu elfennau newydd at sefyllfa gyfarwydd.
- Nid theatr yw efelychiadau ac ymarferion chwarae rôl: maent yn gofyn am greadigrwydd yn eu rhinwedd eu hunain, er mwyn creu neu ddatblygu cymwyseddau iaith strategol. Gall pob dysgwr gynnig atebion i sefyllfa gyfathrebu benodol, gydag elfennau y maent yn gyfarwydd â nhw (neu offerynnau sosioieithyddiaeth eraill, er enghraifft, ailadroddwch, siaradwch Sbaeneg, defnyddio ystumiau, iaith y corff, ac ati).
- Mae llawer o bobl yn teimlo cywilydd wrth chwarae rôl. Gweithiwch ar hynny er mwyn creu awyrgylch da o fewn y grŵp a cheisiwch leihau unrhyw deimladau chwithig.

Dyma rai strategaethau ar gyfer rheoli'r sefyllfaoedd hyn:

- Rhaid i efelychiadau gael eu hegluro'n dda. Eglurwch y nod i'r myfyrwyr, a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud. Gall fod yn fater o efelychu cyfuniad o elfennau gwahanol a chwblhau sgwrs gyfan yn yr ail iaith (L2), (er enghraifft egluro proses lanhau o'r dechrau i'r diwedd, cwblhau rhestr siopa, ac ati), ond hefyd egluro pethau byr neu benodol (er enghraifft, rydych yn clywed sŵn o ystafell ochr ac yn gwneud yn siŵr bod popeth yn iawn). Yn y ddau achos, bydd angen i chi egluro'r efelychiad yn dda i'r myfyrwyr, ac yn benodol, yr hyn rydych am iddynt ei wneud.
- Chwarddwch gyda'r myfyrwyr ac anogwch gymeradwyaeth am syniadau DA
- Bydd yr hyn y bydd y myfyrwyr yn ei gyflawni drwy hyn yn amrywio'n fawr, gyda rhai yn llunio brawddegau cymhleth, yn defnyddio ffurfiau newydd neu'n gwahaniaethu rhwng pobl.  
Ailadroddwch pwy sydd yn y gweithgaredd chwarae rôl, ynghyd â'u swyddogaeth: "Gadewch i ni wneud y cyfan eto, ond gyda brawddegau llawn: yn lle dweud, "clirio'r bwrdd, yna glanhau'r toiled, golchi'r lloriau, ac ati, defnyddiwch ymadroddion llawn, "Yn gyntaf, bydda i'n glanhau'r bwrdd, yna bydda i'n golchi'r llawr ac yna bydda i'n glanhau'r toiled".

Nodiadau'r Athro	Efelychiadau a gweithgareddau chwarae rôl
Rhif: 4.2	<b>Pwnc:</b> Amrywiaeth Ddiwylliannol
<b>Amrywiaeth ddiwylliannol yn yr ystafell ddosbarth</b>	
<p>Drwy gydol y broses ddysgu, rhaid i nodweddion y diwylliant gwreiddiol a diwylliant y dysgwyr fod yn amlwg iawn.</p> <p>Dyma rai pethau i'w hystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mewn nifer o ddiwylliannau, nid yw bod yn wirion o flaen eraill, datgelu eich camgymeriadau eich hun neu edrych yn syth at bobl eraill yn gymdeithasol dderbyniol. Mewn achosion o'r fath, efallai na fydd rhai yn teimlo'n gyfforddus yn cymryd rhan yn yr ymarfer.</li> </ul> <p>Adnoddau ar gyfer strategaeth yr athro:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hyblygrwydd ac empathi. Os na fydd rhywun am gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae rôl neu weithgareddau eraill i ddechrau, bydd angen i'r athro roi ychydig o amser iddynt cyn y byddant yn barod i gymryd rhan. Ystyriwch ddiwylliant penodol pob myfyriwr a pheidiwch â gorfodi neb i wneud pethau sy'n gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus. Efallai y byddant yn eu gwneud ar eu cyflymder eu hunain neu mewn ffordd wahanol.</li> <li>• Os nad ydych yn hoffi gwneud y gweithgareddau chwarae rôl, gallwch chwilio am ddewisiadau eraill, fel dangos fideo ar y pwnc.</li> <li>• Trefnwch y gweithgareddau chwarae rôl gyda'i gilydd ar yr un pryd fel nad yw pawb yn edrych ar y perfformiadau unigol.</li> <li>• Agwedd arall i'w hystyried yw bod yn ymwybodol o gydberthnasau grym o fewn yr ystafell ddosbarth a pheidio â gadael i hyn ddylanwadu gormod ar y gweithgaredd.</li> <li>• Mewn rhai diwylliannau, mae dysgu yn broses gwbl academiaidd ac ni chaiff gweithgareddau fel chwarae rôl eu hystyried o ddifrif. Felly, mae'n bwysig iawn egluro diben chwarae rôl. Er enghraifft: yn yr efelychiad hwn rhaid i chi helpu rhywun i fwyta a byddwch yn defnyddio'r strwythur "gofyn am ganiatâd". "Beth am i mi dorri'r cig, Beth am i mi estyn ychydig o ddŵr?" Eglurwch hefyd fod chwarae rôl yn ymwneud â dysgu strwythur iaith a gramadeg, yn ogystal â'u hymarfer a defnyddio empathi iaith y corff mewn ffordd gadarnhaol a phroffesiynol.</li> </ul>	

Nodiadau'r Athro	Efelychiadau a Gweithgareddau Chwarae Rôl
Rhif: 4.3	<b>Pwnc:</b> Ffactorau Crefyddol
<p><b>Crefydd</b></p> <p>Mae efelychiadau a gweithgareddau chwarae rôl yn dod â phobl i gysylltiad corfforol agos â'i gilydd. Dylech ystyried hyn wrth drefnu grwpiau ar gyfer chwarae rôl.</p> <p>Yn achos rhai Mwslimiaid, er enghraifft, ni chaiff menywod a dynion gyffwrdd â'i gilydd oni bai eu bod yn perthyn.</p> <p>Mae'n bosibl y bydd pobl yn penderfynu gweithio fel gofalwr gyda gweithwyr o'r un rhyw yn unig. Serch hynny, os bydd myfyrwyr o'r ddau ryw ac o grefyddau gwahanol mewn grwpiau hyfforddi, rhaid i'r athro ddod o hyd i strategaethau i barchu anghenion ac arferion pawb.</p> <p>O ran trefnu grwpiau ar gyfer efelychiadau, dylech barchu ac ystyried rheolau crefyddol. Yn aml iawn ni fydd menywod a dynion am gymysgu mewn unrhyw weithgaredd neu ymarfer. Rhaid i'r athro wybod y strategaethau i ddelio â'r sefyllfaoedd hyn.</p> <p>Strategaethau posibl i'r athro:</p> <p>Mae arferion crefyddol yn rhyddid, ac ni ddylid eu barnu. Crëwch ofod lle na fydd neb yn barnu yn yr ystafell ddosbarth ac ewch ati i hybu amrywiaeth a goddefgarwch.</p> <p>Ceisiwch ddod o hyd i ffyrdd o dderbyn yr arferion crefyddol ac addasu iddynt o fewn dynameg cwrs.</p> <p>Pan fydd myfyriwr yn dewis peidio â chymryd rhan mewn gweithgaredd chwarae rôl, yr opsiwn gorau yw ceisio deall ei anghenion a threfnu'r gweithgaredd mewn ffordd a fydd yn eu diwallu; er enghraifft, efallai y bydd angen i chi baru menywod â menywod a dynion â dynion. Peidiwch â thybio y bydd pob grŵp yr un fath, a chofiwch ofyn i'r myfyrwyr sut maent am weithio.</p> <p>Os nad yw hynny'n bosibl oherwydd nodweddion y grŵp, gellir gwyllo'r gweithgareddau ar fideo, a gellir ymarfer y sgysiau neu'r ymadroddion gyda fideo hefyd.</p>	

Nodiadau'r Athro	Didacteg
Rhif: 5.1	<b>Pwnc:</b> Sut i arwain trafodaethau
<b>Sut i arwain trafodaethau â myfyrwyr</b>	
<p>Mae defnyddio dulliau amlddisgyblaethol hefyd yn rhoi gwerth i'r wybodaeth y gall myfyrwyr ei chynnig i'r broses o ddysgu iaith.</p> <p>Gallech ddechrau gyda thrafodaeth er mwyn dysgu am wybodaeth bresennol y myfyrwyr. Er enghraifft, "Ydych chi erioed wedi gweithio gyda rhywun â dementia? Sut rydych chi'n trin pobl â chlefyd Alzheimer?", ac ati. Neilltuwch amser i drafod ac i'r myfyrwyr rannu gweledigaeth neu brofiad.</p> <p>Gallai'r drafodaeth fod ar ffurf sesiwn taflu syniadau gyflym, lle mae pob myfyriwr yn dweud rhywbeth yn fyr, efallai drwy ateb cwestiwn, e.e. "Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am y person rydych chi'n gofalu amdano?" Gallai hefyd fod yn drafodaeth hirach, e.e. "Yn achos dementia, a oes rhywun erioed wedi ymosod arnoch yn gorfforol? Os felly, beth oedd eich ymateb?"</p> <p>Yn y ddau achos, mae angen i ni wybod beth y dylid ei gyflawni yn ystod y sesiwn hon ac am faint o amser y bydd y sesiwn yn para (5 munud, 20 munud, ac ati). Mae angen i ni egluro hyd a fformat y drafodaeth i'r myfyrwyr o'r cychwyn cyntaf, e.e.: "Peidiwch â gorfeddwl, mae pawb yn taflu syniadau/geiriau/ymadroddion/profiadau" neu "Cymerwch ychydig funudau i feddwl ac yna bydd pawb yn sôn am eu profiad yn eu tro."</p> <p>Gellir hefyd arwain y myfyrwyr, e.e. "Dywedwch ychydig yn rhagor wrtha i" a "sut beth oedd hynny ..." neu "da iawn, mae hynny'n ddigon", neu "mae dau neu dri gair yn ddigon", neu "taflwch syniadau", "heb feddwl gormod", ac ati.</p> <p>Weithiau bydd sefyllfaoedd anodd yn codi, er enghraifft pan fydd myfyrwyr yn teimlo'n emosiynol neu'n cynhyrfu wrth drafod pwnc, ac yna bydd y sesiwn yn para'n hirach.</p> <p>Yn yr achos hwn, mae angen i chi wybod sut i symud y drafodaeth yn ei blaen yn gyflym, heb fod yn sarhaus. Er enghraifft, yn yr achosion canlynol:</p> <p><b>1. Myfyrwyr yn trafod ymysg ei gilydd:</b></p> <p>Dangoswch empathi bob amser a pharchwch farn pawb (ar yr amod nad yw'n mynd yn groes i'n meini prawf). Ni ellir gwrthod barn neb ar sail hil, rhywedd, crefydd neu resymau tebyg eraill. Rhaid i'r athro sicrhau bod barn pawb yn ddilys a rhaid iddo wybod sut i ddod â thrafodaeth i ben. "Da iawn, rydych chi wedi mynegi eich barn yn glir, a byddwn ni nawr yn symud ymlaen i'r ymarfer nesaf", neu "allwn ni ddim datrys hyn nawr, efallai ar ddiwedd y wers", neu "gallwch drafod hyn ymhellach yn ystod yr egwyl neu dros goffi", ac ati.</p>	

## **2. Unigolyn (neu grŵp) yn dominyddu'r wers**

Rhowch adborth cadarnhaol "Diolch yn fawr iawn, fe wnaethoch chi egluro hynny'n dda iawn, roedd yn ddiddorol iawn" (heb anwiredd ...) neu "does gennyn ni ddim amser am ragor heddiw", ac ati. Yr athro fydd yn penderfynu pryd i dorri ar draws, yn dibynnu faint o amser sy'n weddill, a phryd i atal yr unigolyn. Os credwch eich bod yn colli rheolaeth dros y sesiwn, rhaid i chi symud ymlaen yn gyflym ac mewn ffordd barchus.

## **3. Myfyrio, yr esgus dros beidio â defnyddio iaith darged:**

Gan fod myfyrdodau a thrafodaethau mewn grŵp lefel A1-A2 fel arfer yn cael eu cynnal yn yr iaith gyntaf (L1) neu'r iaith alwedigaethol gyntaf (VL1), mae rhai myfyrrwyr yn hapus i fyfyrion neu ddyfalbarhau, am ei bod yn llawer haws iddynt siarad yn eu hiaith gyntaf (L1) na gwneud ymarferion yn yr iaith darged. Yn yr achos hwn, rhaid i'r athro gyfeirio'r myfyrrwyr at yr ymarfer nesaf gan ddefnyddio hiwmor, empathi a phendantwydd.

## **4. Pan ddaw emosiwn neu brofiadau i'r amlwg**

Nid yw gofal i'r henoed na mewnfudo yn bynciau hawdd eu trafod. Mae'n bosibl y bydd myfyriwr yn ei chael hi'n anodd trafod y pynciau hyn. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r athro asesu'r sefyllfa. Mewn rhai achosion, gellir ailgyfeirio'r sgwrs a pharhau â'r sesiwn. Mewn gwirionedd, gall emosiynau neu fanylion eu profiadau fod o fudd i'r grŵp cyfan. Mae'n bwysig bod yr athro yn gwybod sut i werthfawrogi a rheoli'r sefyllfa hon.





### B.3 RHESTR DOLENNI/DEUNYDD

– Language for Work: A European learning network for professionals supporting work-related second language development

<https://languageforwork.ecml.at/>

– Language for Work – Tools for professional development: Prosiect sy'n meithrin datblygiad proffesiynol ym maes dysgu iaith fwyafrifol sy'n gysylltiedig â gwaith ar gyfer mudwyr sy'n oedolion a lleiafrifoedd ethnig.

<http://www.ecml.at/ECML-Programme/Programme2016-2019/Adultmigrants/tabid/1858/language/en-GB/Default.aspx>

– Dull senario (yn Almaeneg)

[http://www.netzwerk-iq.de/fileadmin/Redaktion/Downloads/IQ\\_Publikationen/Thema\\_Sprachbildung/BD\\_Szenarien\\_2014\\_web.pdf](http://www.netzwerk-iq.de/fileadmin/Redaktion/Downloads/IQ_Publikationen/Thema_Sprachbildung/BD_Szenarien_2014_web.pdf)

– The Network "Integration through Qualification" (IQ)

<http://www.netzwerk-iq.de/network-iq-start-page.html>

Gwybodaeth am sosioieithyddiaeth/y broses o'i chymhwyso:

– TELP (gweithdai pendantrwydd)

<https://www.slideshare.net/ATC/fonamentaci-del-telp-taller-despai-lingstic-personal-presentation>

Plataforma per la Llengua: sefydliad sy'n gweithio i hyrwyddo Catalaneg fel adnodd cydlyniant cymdeithasol.

[http://www.plataforma-llengua.cat/que-fem/ambits-de-treball/en\\_conscienciacio-linguistica/](http://www.plataforma-llengua.cat/que-fem/ambits-de-treball/en_conscienciacio-linguistica/)

EUSLE, methodoleg i hyrwyddo'r defnydd o'r Fasgeg ar lafar:

<http://www.soziolinguistika.eus/en/node/2195>

<https://www.bangor.ac.uk/cohabs/newyddion/mae-methodoleg-eusle-oddiddordeb-yng-nghymru-31055>

H. Armentia, A. Labaka, cyflwyniad yn Nigwyddiad Lluosydd COMBI (yn yr iaith Fasgeg):

[https://padlet-uploads.storage.googleapis.com/202596697/c63c9ed2786b89cd3eac70f23f618c0e/H\\_Armentia\\_elhuyar\\_aurkezpena\\_presentation\\_pptx.pdf](https://padlet-uploads.storage.googleapis.com/202596697/c63c9ed2786b89cd3eac70f23f618c0e/H_Armentia_elhuyar_aurkezpena_presentation_pptx.pdf)

Siarter Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol Ewrop:

<https://www.coe.int/en/web/european-charter-regional-or-minority-languages>

Llywodraeth Cymru, "Mwy na geiriau"

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/mae-mwy-na-geiriau-adroddiad-blynyddol-2014-i-2015.pdf>

## C. DISGRIFIAD O YMARFERION SY'N DEFNYDDIO DULLIAU AMLDDISGYBLAETHOL YM MAES GOFAL I'R HENOED

Bydd y bennod hon yn disgrifio dwy uned ymarfer thematig i'w defnyddio gan athrawon. Mae'r unedau hyn yn cynnwys uned ar symudedd ac uned ar hylendid personol. Yn dibynnu ar lefel y dysgwyr, byddant yn darparu rhwng 6 ac 20 awr o addysgu. Mae'r unedau'n dangos dulliau methodolegol gwahanol, gan alluogi athrawon i greu ymarferion tebyg mewn meysydd thematig eraill. Ategir pob uned gan fideo sy'n dangos un neu fwy o'r ymarferion.

### Nod y bennod:

darparu ymarferion sy'n seiliedig ar sefyllfaoedd bywyd go iawn. Mae deunydd a gweithgareddau go iawn yn paratoi'r dysgwr i ddefnyddio'r iaith darged yn syth er mwyn cael adborth cadarnhaol a meithrin hunanhyder a chymhelliant.

Mae hefyd yn cynnig llwybr byr i ddysgu iaith leiafrifol. O ran gweithio gyda phobl oedrannus y mae angen sylw arnynt, mae gallu'r gofalwr i ddefnyddio'r iaith darged yn cynnig manteision emosiynol y mae'n rhaid eu hystyried.

Mae cyd-destun yr ymarferion hyn yn gysylltiedig ag anghenion gwirioneddol y dysgwyr yn y gweithle er mwyn sicrhau eu bod yn manteisio i'r eithaf ar y broses ddysgu. Mae cyd-destun (ieithyddol a sefyllfaol) yn hollbwysig wrth ddysgu iaith oherwydd gall athrawon gynnig cyfle i fyfyrwyr gyflawni tasgau sy'n berthnasol iddynt. Mae ymchwil yn dangos bod cymhwyso brawddegau a geiriau yn y gweithle yn fwy llwyddiannus na dulliau traddodiadol.

## C.1. CYFLWYNIAD – DISGRIFIAD O'R YMARFERION

Dylid defnyddio'r disgrifiadau yn yr uned hon fel enghreifftiau i greu ymarferion amlddisgyblaethol i'w defnyddio wrth gyfathrebu ym maes gofal i'r henoed a gofal cymdeithasol.

Rydym wedi ceisio sicrhau bod yr ymarferion mor hygyrch a pherthnasol â phosibl i'r athro. Mae dull addysgu amlddisgyblaethol yn gofyn am fwy o ymrwymiad na dulliau addysgu traddodiadol. Rhaid i athro sy'n defnyddio dulliau addysgu amlddisgyblaethol gamu o'i barth cysur a bod yn agored i ddefnyddio technegau a chwestiynau newydd nad yw wedi'u hystyried o'r blaen.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i athrawon hefyd gwestiynu a chymhell eu hunain i roi dulliau o'r fath ar waith (neu gael eu harwain gan hyfforddiant ar y dull hwn). Er gwaetha'r heriau, gall dulliau amlddisgyblaethol hefyd fod yn werth chweil wrth eich cyflwyno i feysydd gwybodaeth newydd neu ailedrych ar ddulliau addysgu clasurol a thraddodiadol o safbwynt newydd.

Yn achos ieithoedd lleiafrifol, y gofyniad cyntaf i athro yw cymhelliant a'r gallu i weld y posibilrwydd o ddefnyddio dulliau addysgu ehangach. Mewn nifer o achosion, gall athrawon, heb yn wybod iddynt, flaenoriaethu'r gallu i weithio dros yr angen i gyfathrebu. Yn achos iaith leiafrifol, gall hyn fod hyd yn oed yn fwy amlwg gan fod y rhan fwyaf o fudwyr eisoes yn siarad yr iaith fwyafrifol (fel L1 neu P1/L2).

Yn yr achos hwn, rhaid i'r athro drosglwyddo pwysigrwydd defnyddio'r iaith leiafrifol a'r posibilrwydd o wneud hynny, a bod yn barod i wneud hynny drwy arbrofi â ffyrdd newydd o addysgu.

Mae'r disgrifiad o ymarferion a ddangosir yma yn gyfuniad o ddulliau gwahanol mewn un sesiwn. Yn dibynnu ar lefel a nifer y myfyrwyr, gellir defnyddio pob uned am gyfnod o ddwy i chwe awr addysgu. Mae'r enghraifft gyntaf, "Hylendid Personol", yn seiliedig ar dechnegau gwaith corfforol a'r cyfathrebu cysylltiedig. Mae'r ail enghraifft, "Symudedd", yn seiliedig ar strategaethau cyfathrebu mwy amodol (cymhelliant y claf). Yn y ddwy uned, rydym hefyd yn gweithio ar eirfa, arddodiaid, cwestiynau ac atebion, ynganiad, a/neu y broses o bontio rhwng ieithoedd lleiafrifol a mwyafrifol.

Enghreifftiau yn unig yw'r ymarferion/unedau a ddisgrifir yma. Mae'r anghenion cyfathrebu ym mhob maes yn llawer ehangach ac yn dod yn fwy cymhleth yn unol â lefel pob myfyriwr.

## C 1.2. YMARFERION SY'N DEFNYDDIO DULLIAU AMLDDISGYBLAETHOL (CYFFREDINOL)

Canllawiau:

- Yn yr enghreifftiau hyn, rydym yn cyfuno mathau gwahanol o ymarferion (myfyrdodau, symudiadau, mewnbwn, ac ati), gyda'r nod o gadw'r myfyriwr yn brysus yn ystod y sesiwn gyda gweithgareddau gwahanol.
- Yr athro yw'r "cyfarwyddwr" sy'n arwain newidiadau a'r broses o bontio rhwng ymarferion, gan roi esboniadau i'r myfyriwr, eu gosod yn y manau cywir, paratoi deunydd (adnoddau iaith/gramadeg), gofyn am adborth, yn ogystal ag annog y myfyriwr i weithredu.
- Mae angen mwy o ddeunydd ar gyfer y dull methodolegol hwn na chysiau traddodiadol. Gall hyn gynnwys dodrefn (symud cadeiriau neu fyrddau), papur a marcwyr er mwyn ysgrifennu ar y wal, ond, yn bennaf, "deunydd go iawn" sy'n gysylltiedig â'r thema dan sylw. Rhaid i'r deunydd, y gofod a threfn yr ymarferion gael eu paratoi gan yr athro. Rhaid i hyn gael ei ystyried wrth baratoi pob sesiwn addysgu.
- Nid yw'r pecyn cymorth hwn yn darparu "taflenni" arbennig i fyfyrwr. Serch hynny, gellir creu "taflenni" yn seiliedig ar themâu'r sesiynau neu lyfrau testun a gramadeg presennol er mwyn rhoi trosolwg o'r adnoddau iaith a astudiwyd yn flaenorol.
- Rhoddir blaenoriaeth i ddefnyddio'r iaith ar lafar yn y pecyn cymorth hwn, ond nid yw hyn yn eithrio cymwyseddau darllen ac ysgrifennu. Byddai lefel A1-A1 at ddibenion gofal iechyd yn yr iaith leiafrifol yn cynnwys, er enghraifft, darllen ac ysgrifennu templedi dyletswyddau gwaith, templedi cynllunio, bwydlenni, amserlenni ar gyfer triniaethau a chanllawiau syml fel "nid yw'r biniau wedi cael eu gwagio" yn hytrach nag adroddiadau cleifion neu gyfarfodydd. Gyda'r dull methodolegol hwn, dim ond er mwyn caffael y cymwyseddau sydd eu hangen ar gyfer y gweithle y defnyddir darllen ac ysgrifennu.

### C 1.3. YMARFERION SY'N DEFNYDDIO DULLIAU AMLDDISGYBLAETHOL (IEITHOEDD LLEIAFRIFOL)

Canllawiau:

- Mae'r teimlad cyntaf hwnnw o lwyddo ac o gael eich grymuso yn bwysig wrth ddysgu ieithoedd, yn enwedig ieithoedd lleiafrifol. Dyma'r rheswm pam y dylid cynnwys ymarferion ar arferion dyddiol fel "Aethoch chi â'r allwedd? – Ewch â'r allwedd! / Oes angen tywel arnoch chi? Rhowch y tywel i mi". Mae hyn yn gwneud i'r myfyrwyr deimlo y gallant yn wirioneddol gyflawni rhywbeth drwy ddefnyddio'r iaith.
- Nodwn hefyd ei bod yn bwysig strwythuro sesiynau adborth a rhesymu rheolaidd o ran y defnydd o'r iaith leiafrifol cyn ac ar ôl ymarferion. Ceir enghreifftiau i hwyluso hyn yn yr Uned Addysgu Symudedd neu drwy ddeunydd fel **REMEMBER**, tystiolaeth fideo o glaf â chlefyd Alzheimer sy'n siarad Basgeg.
- Mae'n bwysig bod yr athro yn teimlo bod y myfyrwyr wedi manteisio ar yr adnoddau iaith sydd wrth law, hyd yn oed mewn cysylltiad â'r iaith fwyafrifol.
- Gellir defnyddio ymarferion penodol i godi ymwybyddiaeth o'r iaith leiafrifol ar ddechrau cwrs yn ogystal â'u cynnwys drwy gydol y cwrs (er enghraifft y defnydd o'r "cynnig rhagweithiol", strategaethau iaith eraill, ac ati).

## C2: PECYN CYMORTH

Enghreifftiau ar gyfer unedau addysgu:

1. [Uned Hylendid – Cawod COMBI](#)
2. [Uned Cymhelliant a Symudedd COMBI](#)
3. [Dogfen Wag at Ddefnydd Personol:](#)

### **Fideos:**

- Help yn y gawod – rhan I (sefyllfa)  
<https://vimeo.com/272257707>
- Help yn y gawod – rhan II (ystafell ddosbarth)  
<https://vimeo.com/272257707>
- Cymell person oedrannus – rhan I (sefyllfa)  
<https://vimeo.com/272261016>
- Cymell person oedrannus – rhan II (ystafell ddosbarth)  
<https://vimeo.com/272914425>

## NOTES:

## NOTES:



# combiproject.eu

 [facebook.com/COMBIproject](https://facebook.com/COMBIproject)

 [twitter.com/project\\_combi](https://twitter.com/project_combi)

## Funding institution

EACEA, Erasmus+ KA2 Strategic Partnerships for adult education

## Project duration

01/09/2016 - 31/08/2019



This work is licensed under a Creative Commons Attribution 4.0 License



Co-funded by the Erasmus+ Programme of the European Union

The European Commission support for the production of this publication does not constitute an endorsement of the contents which reflects the views only of the authors, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein.